Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Arolwg Cartrefi Gwledig

# 2010

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Cynnwys** | | 1 |
| **Crynodeb Gweithredol** | | 2 |
| **Adran 1** | CYFLWYNIAD | 6 |
| **Adran 2** | ARDAL LEOL A  DEMOGRAFFEG | 9 |
| **Adran 3** | CYD-DESTUN CYMDEITHASOL LLEOL A CHYMUNEDOL | 16 |
| **Adran 4** | HAPUSRWYDD A LLES | 23 |
| **Adran 5** | GWASANAETHAU GWLEDIG | 34 |
| **Adran 6** | CYFLOGAETH | 31 |
| **Adran 7** | AMGYLCHEDD | 42 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Rhydd yr adroddiad hwn fraslun o ganlyniadau arolwg cartrefi Cymru wledig a wnaed gan Arsyllfa Wledig Cymru yn ystod 2010-11. Dyma'r trydydd mewn cyfres o arolygon cartref sydd wedi'u cynnal gan Arsyllfa Wledig Cymru ac maent yn barhad o'r arolygon blaenorol a wnaed rhwng 2004 a 2007. Mae'r canlyniadau'n darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru a data hydredol ychwanegol gan ganiatáu gwaith pellach cymharol fanwl. Mae'r themâu allweddol a archwiliwyd yn yr adroddiad yn cynnwys: ardal leol a demograffeg; y cyd-destun cymdeithasol a chymunedol leol; hapusrwydd a lles; darpariaeth gwasanaeth gwledig, cyflogaeth wledig a'r economi; a'r amgylchedd.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Mynegodd cartrefi yng Nghymru wledig lefelau uchel o foddhad o ran eu preswylfa ar hyn o bryd.
- Yn unol â'r arolygon blaenorol, mae canlyniadau'r arolwg yn amlygu patrwm o sefydlogrwydd y boblogaeth, a oedd yn cydfodoli ochr yn ochr â newid sylweddol yn y boblogaeth a symudedd.
- Roedd un pumed o ymatebwyr yr arolwg yn rhugl yn y Gymraeg, a nododd 9% pellach eu bod yn siarad Cymraeg yn 'eithaf da'.
- Roedd mwyafrif sylweddol o'r trigolion (77%) naill ai'n cytuno'n gryf, neu'n cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal.
- Roedd 56% o'r ymatebwyr yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r gymuned a drefnwyd gan grwpiau a chymdeithasau lleol a chenedlaethol.
- Roedd gan bron i hanner o bob cartref (48%) incwm blynyddol llai na £21,000. O'r ffigwr hwn, roedd gan 17% incwm cartref blynyddol llai na £10,000.
- Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn hapus yn gyffredinol gyda darpariaeth y gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol, ac eithrio trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau'r heddlu.
- Roedd 55% o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth (naill ai'n llawn amser, yn rhan amser neu'n hunangyflogedig), roedd traean wedi ymddeol, 2% mewn addysg llawn amser, 2% yn ddi-waith, a 3% wedi'u cofrestru â salwch hirdymor.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Roedd 42% o'r cartrefi yn cael eu cyflogi mewn swyddi gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, addysg, ac iechyd a gofal cymdeithasol - rhywfaint o gynnydd ers 2007. Arhosodd y ffigur ar gyfer y sectorau amaeth, hela a choedwigaeth yn gymharol isel, sef 4%.

## CEFNDIR A METHODOLEG

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg cartrefi yng Nghymru wledig a wnaed gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2010-2011. Dyma'r trydydd mewn cyfres o arolygon cartref a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru, gwnaed yr arolygon blaenorol yn ystod 2004 a 2007. Mae'r canlyniadau'n darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru a data hydredol ychwanegol sy'n caniatáu gwaith cymharol fanwl pellach, sydd yn taflu goleuni ar amrywiaeth o dueddiadau a phrosesau sy'n effeithio ar gartrefi gwledig yng Nghymru dros gyfnod o amser.

Seiliwyd y diffiniad o Gymru wledig a fabwysiadwyd ar gyfer yr arolwg ar yr hyn a ddarparwyd yng Nghynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, 2007-2013. Roedd sampl yr arolwg yn cynnwys cyfanswm o 4,062 o gartrefi. O'r rhain, roedd 1,158 yn gyfweliadau gyda chartrefi a oedd wedi cyfranogi yn arolwg 2007, a oedd yn llunio elfen hydredol yr arolwg. Roedd y cyfweliadau a oedd yn weddill (2,904 o gartrefi) wedi'u dwyn wrth sampl o rifau ffôn ar hap, a gafodd ei strwythuro gan gwotâu i ardaloedd yr Awdurdod Lleol, ac wedi'u seilio ar ystod o ffactorau gan gynnwys rhyw, oed a gweithgaredd economaidd.

Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth am eu hunain, eu cartref ac am unigolion eraill a oedd yn byw yn y cartref. Gwnaeth gyfwelwyr ddefnyddio tri math sylfaenol o gwestiwn yn ystod yr arolwg ffôn: aml ddewis neu ddatganiadau agweddol; cwestiynau ffeithiol neu rifedd; a chwestiynau penagored testunol. Hyd y cyfweliadau oedd tua 30 munud. Cafodd yr holl ymatebwyr yr opsiwn o gynnal y cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg.

## CANFYDDIADAU

### Demograffeg a Strwythur Cartrefi

Mae'r canlyniadau'n nodi bod 24% o gartrefi sampl yr arolwg yn aelwydydd un person; roedd 40% yn cynnwys dau berson; roedd 16% o gartrefi yn cynnwys tri pherson; ac roedd yr 20% a oedd yn weddill yn cynnwys pedwar neu fwy o bobl.

Roedd ychydig yn llai na hanner (49%) o'r holl gartrefi yn berchen ar eu heiddo yn gyfan gwbl, tra bod gan ychydig dros draean (34%) o ymatebwyr forgais. Roedd y cartrefi a oedd yn weddill naill ai'n cael eu rhentu'n breifat (7%) neu drwy landlord cymdeithasol (8%).

### Ardal a math o anheddiad

Roedd ychydig yn llai na hanner (49%) o'r ymatebwyr yn byw mewn pentref yn y wlad a thraean yn byw mewn tref. O'r gweddill, roedd 14% yn byw mewn adeilad neu fferm yng nghefn gwlad agored, a nododd cyfran fechan iawn (3%) eu bod naill ai'n byw ar gyrion dinas fawr neu mewn dinas lai o faint.

Mae adroddiad yr arolwg yn datgelu lefelau uchel o foddhad o leoliad eu cartref ymysg preswylwyr y wlad, gyda 93% yn nodi eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu hardaloedd lleol fel lleoedd i fyw ynddynt.

### Newid yn y boblogaeth

Yn unol â'r arolygon blaenorol yn 2004-2007, roedd yr arolwg yn amlygu patrwm o sefydlogrwydd mewn poblogaeth, a oedd yn cyd-fodoli ochr yn ochr â newid sylweddol yn y boblogaeth.

Roedd ychydig yn llai na thraean o'r ymatebwyr wedi byw yn eu cartref presennol am 20 mlynedd neu fwy, ac roedd 47% pellach wedi byw yn eu cartref am gyfnod rhwng pump a 21 mlynedd.

Bu i'r arolwg ddatgelu symudiadau'r boblogaeth wedi'i nodweddu gan symudiadau mudol pellter byr a phellter hir. O'r ymatebwyr hynny a nododd nad oeddent bob amser wedi byw yn eu hardal leol, roedd y mwyafrif ohonynt (63%) yn byw llai na 20 milltir i ffwrdd o'u cartref blaenorol; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod 15% wedi symud i ffwrdd wrth ardal a oedd wedi'i lleoli rhwng 20 a 100 milltir i ffwrdd ac roedd ychydig yn llai na chwarter (23%) wedi symud pellter a oedd yn fwy na 100 milltir i ffwrdd.

## Yr Iaith Gymraeg

Roedd un pumed o ymatebwyr yr arolwg yn siarad Cymraeg yn rhugl a nododd 9% pellach eu bod yn siarad Cymraeg yn 'eithaf da'.

Roedd gan fro draddodiadol Cymru wledig gynrychiolaeth gref o siaradwyr a oedd yn rhugl yn y Gymraeg gyda'r gyfran uchaf i'w chanfod yng Ngwynedd (49%); Ynys Môn (35%); Sir Gaerfyrddin (25%); a Cheredigion (24%).

## Cymuned a Chelfyddyd

Bu i'r arolwg ddarparu tystiolaeth o rwydweithiau teuluol a chymunedol agos ymhlith cartrefi gwledig yng Nghymru, gyda hanner yr holl ymatebwyr yn nodi eu bod yn byw llai na phum milltir wrth aelod o'r teulu.

Roedd mwyafrif y preswylwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (77%) naill ai'n cytuno'n gryf, neu'n cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal, tra bod 56% o'r ymatebwyr yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cymunedol a drefnwyd gan grwpiau a chymdeithasau lleol a chenedlaethol.

## Hapusrwydd a lles

Roedd gan bron i hanner (48%) o'r cartrefi incwm blynyddol llai na £21,000, roedd 17% o'r rheini yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn. O'r cartrefi a oedd yn weddill, roedd gan 40% incwm blynyddol rhwng £21,000 a £51,999, ac roedd gan 12% o gartrefi incwm blynyddol gwerth £52,000 neu fwy.

Er gwaethaf y lefelau incwm cymharol isel, nododd 34% o'r cartrefi eu bod yn byw'n gyfforddus ar eu hincwm presennol, a nododd 48% pellach eu bod yn 'ymdopi'.

Roedd ychydig dros hanner (52%) o'r holl gartrefi a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried bod pobl yn eu hardal leol yn byw mewn tlodi, a oedd yn uwch na'r ffigur cyfwerth a gofnodwyd yn arolwg 2007 (43%).

## Gwasanaethau lleol

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn gymharol fodlon ar ddarpariaeth y gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol. Roedd mwy na dau draean o'r holl ymatebwyr yn teimlo bod safon gwasanaethau swyddfa'r post, ysgolion, y gwasanaeth tân, Gwasanaethau'r GIG, siopau bwyd, banciau a chymdeithasau adeiladu yn dda yn eu hardal. Yr eithriadau oedd trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau'r heddlu, bu i'r ddau o'r rhain dderbyn y cyfraddau lleiaf positif, sef 40% a 44% yn eu tro.

Roedd cartrefi incwm isel yn llawer mwy tebygol o brofi anawsterau wrth ddod o hyd i wasanaethau iechyd a manwerthu allweddol fel ysbytai, meddygon teulu a deintyddion, archfarchnadoedd a gorsafoedd petrol, yn yr un ffordd â'r ymatebwyr hynny a oedd naill ai'n byw mewn pentref neu mewn cartref yng nghefn gwlad agored.

## Cyflogaeth

Roedd 55% o'r holl ymatebwyr mewn cyflogaeth (naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser neu'n hunan-gyflogedig) ac roedd traean wedi ymddeol. O'r gweddill, roedd 2% yn derbyn addysg lawn amser, 2% yn ddi-waith, 3% wedi'u cofrestru â salwch hir dymor neu'n anabl, a 3% wedi nodi eu bod yn gofalu am eu cartref.

Roedd dosbarthiad y sectorau cyflogaeth mewn ar draws cartrefi gwledig at ei gilydd yn debyg i ganlyniadau'r arolwg blaenorol yn 2007.

Mae'r canlyniadau'n nodi bod cyfran ychydig yn uwch o gartrefi wedi'u cyflogi mewn swyddi gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, addysg a gwaith iechyd a chymdeithasol – sef cynnydd o 39% yn 2007 i 42% yn 2010. Mae'r canlyniadau hefyd yn nodi bod 22% o'r ymatebwyr yn cael eu cyflogi mewn cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai ac arlwyo; roedd 8% yn cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu; 6% yn y diwydiant adeiladu; tra bod y ffigur o ran sectorau amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth yn parhau'n isel sef 4%.

O fewn yr ystod oedran 16-34 oed, nododd 43% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi profi anawsterau wrth ddod o hyd i waith yn eu hardal leol.

## Amgylchedd

Bu i'r arolwg archwilio barn yr ymatebwyr ar eu hamgylchedd naturiol. Roedd chwarter o'r ymatebwyr yn teimlo bod ansawdd eu hamgylchedd naturiol lleol wedi gwella i raddau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd ychydig yn llai na dau draean (63%) o'r farn nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol, tra bod 10% wedi nodi y bu dirywiad.

Roedd cyfran sylweddol o bob cartref a gymerodd ran yn yr arolwg (92%) yn berchen ar gerbyd modur neu'n gallu trefnu ffordd o ddefnyddio cerbyd modur. Ymhlith y cartrefi hyn, roedd 46% yn berchen ar un cerbyd, 40% yn berchen ar ddau gerbyd ac 14% yn berchen ar dri neu fwy o gerbydau.

Hefyd, bu i'r arolwg ddatgelu dibyniaeth gref barhaus ar drafnidiaeth fodurol bersonol, gyda thraean o'r holl ymatebwyr yn nodi bod eu dibyniaeth wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac roedd 58% pellach yn nodi bod eu dibyniaeth wedi aros yn eithaf sefydlog. Dim ond 8% o'r holl ymatebwyr a nododd fod eu dibyniaeth ar drafnidiaeth fodurol wedi lleihau yn ystod cyfnod y pum mlynedd.

## 1.1 Amlinelliad o'r Ymchwil

Rhydd yr adroddiad hwn fraslun o ganlyniadau arolwg cartrefi Cymru wledig a wnaed gan Arsyllfa Wledig Cymru yn ystod 2010-11. Dyma'r trydydd mewn cyfres o arolygon cartrefi a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru, gwnaed yr arolygon blaenorol yn ystod 2004 a 2007.

Nod yr arolwg gwreiddiol oedd cynhyrchu data dibynadwy y gellir o bosibl ei gymharu ar gartrefi gwledig yng Nghymru. Gwnaed dadansoddiad manwl o'r data hwn wedi gan ddefnyddio categorïau pellach, gan gynnwys math o gartref, rhyw, oedran, incwm, dosbarth cymdeithasol ac ardal. Darparodd yr arolwg dilynol a gynhaliwyd yn 2007 ddata wedi'i ddiweddaru ac yn cynnwys elfen hydredol a alluogodd gymharu â nodi newidiadau mewn cartrefi gwledig dros gyfnod tair blynedd yr astudiaeth.

Mae canlyniadau arolwg 2010-11 yn darparu data hydredol ychwanegol sy'n caniatáu gwaith cymharol fanwl pellach, sydd yn taflu goleuni ar amrywiaeth o dueddiadau a phrosesau sy'n effeithio ar gartrefi gwledig yng Nghymru dros gyfnod o amser.

Rhannwyd yr holiadur yn chwe adran, a phob un yn rhoi sylw i thema wledig benodol. Sef yr ardal leol a demograffeg; y cyd-destun cymdeithasol a chymunedol leol; hapusrwydd a lles; darpariaeth gwasanaeth gwledig, cyflogaeth wledig a'r economi; a'r amgylchedd. Defnyddiwyd y themâu hyn i strwythuro gweddill yr adroddiad hwn.

## 1.2 Diffinio Cymru Wledig

Defnyddiodd yr arolwg y diffiniad o Gymru wledig a fabwysiadwyd yng Nghynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2007-2013, a gynigiodd ddefnyddio pedwar categori i wahaniaethu Cymru wledig o weddill Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| **Wardiau Gwledig** | - | proffil gwledig yn bennaf neu boblogaeth tref fach; |
| **Canolfan Gwasanaethu** | - | proffil poblogaeth drefol â chysylltiadau cryf i'r ardaloedd gweledig amgylchynol; |
| **Ward Gartref** | - | proffil poblogaeth tref fawr ac yn chwarae rhan allweddol yn yr ardaloedd gwledig amgylchynol; |
| **Ward Anghymwys** | - | proffil poblogaeth tref fawr heb gysylltiadau neu â chysylltiadau cyfyngedig ag ardaloedd gwledig. |

Dangosir dosbarthiad y pedwar math hwn o wardiau yn Ffigur 1.1. Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, mae'r naw awdurdod lleol gwledig yn cael eu cynnwys, ac eithrio sectorau post bach sy'n cyd-daro â Bangor yng Ngwynedd, ardal arfordirol Conwy a Sir Ddinbych, sector post ar ffin de orllewinol Powys, sectorau post sy'n cyd-daro â'r Fenni, Cil-y-Coed a Chas-gwent yn Sir Fynwy a rhan fawr yn ne ddwyrain Sir Gaerfyrddin. O fewn Sir y Fflint, Wrecsam a Bro Morgannwg ac awdurdodau'r Cymoedd mae'r sectorau post sy'n gorwedd y tu allan i anheddau trefol mwy o faint yn cael eu cynnwys. At hynny, mae'r arolwg yn cynnwys sectorau post Bro Gwyr yn Abertawe.


## 1.3 Methodoleg yr Ymchwil

Cynhaliwyd gwaith maes yr arolwg rhwng 22ain Tachwedd 2010 a 9fed Ionawr 2011. Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi cymryd rhan yn arolwg 2007 a oeddent yn fodlon inni gysylltu â nhw ar gyfer y cam nesaf o'r ymchwil a'r rhai a gytunodd oedd y sampl hydredol ar gyfer arolwg 2010-11, a oedd yn cynnwys 3,051 o gartrefi. O'r

rhain, cafodd 1,158 eu troi'n gyfweliadau cyflawn a thynnwyd y cyfweliadau oedd yn weddill (2,904 o gartrefi) o sampl o rifau ffôn, a strwythurwyd yn ôl cwotâu ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol, rhyw, oedran a gweithgaredd economaidd. Mae tabl 1.1 yn dangos dosbarthiad yr ymatebwyr ar draws wahanol ardaloedd Awdurdod Lleol sy'n ffurfio Cymru wledig.

Yn ystod y cyfweliad, gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth am eu hunain, eu cartref ac am unigolion eraill a oedd yn byw yn y cartref. Gwnaeth gyfwelwyr ddefnyddio tri math syflaenol o gwestiynau yn ystod yr arolwg ffôn: aml ddewis neu ddatganiadau agweddol; cwestiynau ffeithiol neu rifedd; a chwestiynau penagored testunol. Hyd y cyfweliadau oedd tua 30 munud. Cynigwyd y dewis i bob ymatebwyr, waeth ble roeddent yn byw, gael y cyfweliad yn Gymraeg neu Saesneg. Ni ofynnodd unrhyw rai o'r ymatebwyr am gyfweliad Cymraeg.

**Ffigur 1.1. Map yn dangos yr ardaloedd Dosbarthiad yng Nghymru.**




**Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)**

**Tabl 1.1 Dosbarthiad cyfranogwyr ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

| Awdurdod Lleol | % o gartrefi ar draws 'Cymru wledig' | % o bob cyfweliad |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 6% | 6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4% | 4% |
| Caerffili | 4% | 4% |
| Sir Gaerfyrddin | 7% | 7% |
| Ceredigion | 6% | 6% |
| Conwy | 10% | 10% |
| Sir Ddinbych | 8% | 8% |
| Sir y Fflint | 5% | 5% |
| Gwynedd | 10% | 10% |
| Merthyr Tudful | 1% | 1% |
| Sir Fynwy | 4% | 4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 4% | 4% |
| Sir Benfro | 11% | 11% |
| Powys | 11% | 11% |
| Abertawe | 2% | 2% |
| Bro Morgannwg | 4% | 4% |
| Wrecsam | 5% | 5% |

# ADRAN 2 ARDAL LEOL A DEMOGRAFFEG

## 2.1 Rhagymadrodd

Yn gyffredin ag ardaloedd gwledig eraill yn y DU, gwelwyd gostyngiad a chynnydd net ym mhoblogaeth Cymru wledig, gan arwain at fewnfudo sylweddol o ddinasoedd a chanolfannau trefol mwy. Mae mudo poblogaeth yn broses gymhleth o lifoedd sy'n cynnwys tair cydran sy'n rhyngweithio: newid naturiol, allfudo a mewnfudo.

Ystyrir bod mewnfudo i ardaloedd gwledig yn cael rhai effeithiau buddiol fel gwrthweithio allfudo; adfywio economïau gwledig; a chadw'r galw am wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae effeithiau negyddol canfyddedig mewnfudo'n cynnwys gwanhau'r diwylliant gwledig a chyfalaf cymdeithasol; proffil poblogaeth anghytbwys sy'n heneiddio; gwrthdrawiadau yng nghefn gwlad; a phrisiau tai gwledig yn codi. Ar y llaw arall, ystyrir bod allfudo'n cael effaith fawr ar ardaloedd gwledig, yn enwedig o ganlyniad i golli pobl ifanc, nad ydynt yn gallu fforddio tai neu sy'n methu dod o hyd i gyflogaeth. Yn gyffredinol, mae gan Gymru wledig iaith a diwylliant unigryw a thybir ei bod yn eithriadol o agored i'r effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â mewnfudo ac allfudo.

Mae'r adran hon yn archwilio natur y boblogaeth wledig yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar y materion canlynol:

- Demograffeg
- Mathau o anheddiad gwledig
- Mudo a'r rhesymau dros fudo
- Ethnigrwydd a Hunaniaeth Genedlaethol
- Defnydd o'r iaith Gymraeg

## 2.2 Demograffeg a Strwythur Cartrefi

Mewn perthynas â maint cartrefi mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 24% yn gartrefi un person; roedd 40% yn cynnwys dau berson; roedd 16% yn cynnwys tri pherson; ac roedd 20% yn cynnwys pedwar person neu fwy.

O ran rhyw, roedd 54% o'r ymatebwyr yn fenywaidd ac roedd 46% yn wrywaidd. Mae tabl 2.1 yn dangos proffiliau oedran yr ymatebwyr.

**Tabl 2.1 Proffil oedran yr ymatebwyr**

| Grwp oedran | Ymatebwyr |
|---|---|
| 16-24 | 3% |
| 25-34 | 9% |
| 35-44 | 14% |
| 45-54 | 23% |
| 55-59 | 12% |
| 60-64 | 13% |
| 65-74 | 19% |
| 75+ | 7% |

O ran deiliadaeth, mae'r canlyniadau'n dangos cyfran uchel o berchnogion cartrefi heb forgeisi (49%). Y math mwyaf cyffredin nesaf o ddeiliadaeth oedd perchnogaeth drwy forgais, yn cyfrif am ychydig dros draean (34%) o gartrefi. Roedd hyn yn cael ei ddilyn gan rent preifat (7%) a rhent cymdeithasol (8%).

Fel y gellid disgwyl, roedd deiliaid tai yn y categorïau oedran hŷn yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu ty yn gyfan gwbl; Roedd 72% o bobl dros 55 oed yn berchen ar eu heiddo eu hunain, o'i gymharu ag 17% o bobl o dan 35 oed. Roedd pobl dan 35 oed yn fwy tebygol o fod yn rhentu oddi wrth landlord preifat (17%); yr awdurdod lleol (7%); neu gymdeithas tai (6%) na phobl hŷn. Mae Tabl 2.2 yn dangos y berthynas rhwng deiliadaeth tai ac oedran.

**Tabl 2.2 Deiliadaeth tai yn ôl oedran**

| Deiliadaeth | Pob un | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|
| Yn berchen yn gyfan gwbl | 49% | 17% | 27% | 72% |
| Perchen drwy forgais | 34% | 49% | 57% | 15% |
| Rhentu – Awdurdod Lleol | 4% | 7% | 3% | 4% |
| Rhentu - Cymdeithas Tai | 3% | 6% | 2% | 3% |
| Rhentu - Landlord Preifat | 7% | 17% | 9% | 4% |
| Arall | 1% | 4% | 1% | 1% |

## 2.3 Ardal a math o anheddiad

Gofynnwyd i ymatebwyr ddiffinio'r math o anheddiad lle roeddent yn byw gan ddefnyddio un o saith categori; dinas fawr, y maestrefi neu gyrion dinas fawr, dinas lai, tref, pentref yng nghefn gwlad, eiddo neu fferm yng nghefn gwlad, a chymysgedd. Fel mewn arolygon blaenorol, roedd y gyfran uchaf o ymatebwyr (49%) yn dweud eu bod yn byw mewn pentref yng nghefn gwlad a thraean eu bod yn byw mewn tref. Dywedodd 14% arall eu bod yn byw ar eiddo neu fferm yng nghefn gwlad agored. Dim ond nifer bach o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn byw mewn dinas – naill ai o fewn neu ar gyrion dinas fawr (2%) neu mewn dinas lai (1%).

Er mwyn ymchwilio ymhellach i batrymau preswylio, gofynnwyd i ymatebwyr hefyd i ddiffinio'r fath o anheddiad lle roeddent wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau. Yn debyg i arolygon blaenorol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod ychydig dros draean (36%) wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau mewn pentref; 34% mewn tref; 10% mewn eiddo neu fferm yng nghefn gwlad; 16% mewn dinasoedd neu o'u cwmpas; a 4% mewn cymysgedd o'r mathau hyn o leoedd.

## 2.4 Lefelau boddhad ar leoliad preswylio

Ar draws yr arolwg, roedd 93% o ymatebwyr naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Pan ofynnwyd iddynt beth roeddent yn ei hoffi am eu hardal leol, roedd ymatebwyr yn tueddu i nodi tawelwch a heddwch; ffordd fwy ymlaciol o fyw; agosrwydd i natur a thirweddau a golygfeydd Cymru wledig; ac ymdeimlad o gymuned agos.

Dim ond 4% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anfodlon ar eu hardal leol. Pan ofynnwyd iddynt beth nad oeddent yn ei hoffi am fyw yn yr ardal, pwyntiodd yr ymatebwyr at ddiffyg gwasanaethau, fel siopau a chymwysterau cymunedol, a hefyd at ddarpariaeth trafnidiaeth leol wael. Ar y cyfan, fodd bynnag, ymddengys fod ymatebwyr yn hapus gyda'u hardaloedd lleol fel lleoedd i fyw, dangosir hyn gan 38% o ymatebwyr na fynegodd unrhyw beth nad oeddent yn ei hoffi am yr ardal lle roeddent yn byw.

## 2.5 Hyd y Preswylio

Fel yn yr arolygon blaenorol, darparodd arolwg 2010-11 dystiolaeth o sefydlogrwydd a mudoldeb poblogaeth yng Nghymru wledig. Roedd ychydig dros chwarter (27%) o'r ymatebwyr wedi byw yn eu heiddo presennol am 21 o flynyddoedd neu'n hirach ac roedd 47% arall wedi byw yno rhwng pump a 21 o flynyddoedd. Y grwpiau oedran hyn oedd y grwp demograffeg mwyaf sefydlog, gyda bron hanner (47%) o'r holl ymatebwyr yn 55 oed neu'n hyn wedi byw yn eu heiddo ers 20 mlynedd neu'n hirach.

Fodd bynnag, fel y dangosir yn Nhabl 2.3, roedd y patrwm hwn o sefydlogrwydd yn cydfodoli â newid sylweddol yn y boblogaeth, gyda 21% o bob ymatebwr yn dweud ei fod wedi byw yn ei eiddo am lai na phum mlynedd. Ymatebwyr yn y grwpiau oedran iau, yn enwedig y rhai o dan 35 oed, oedd y rhai mwyaf tebygol o fod wedi symud yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

**Tabl 2.3** **Hyd preswylio yn ôl oedran**

| | Pob un | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 2% | 9% | 2% | 1% |
| 1-5 mlynedd | 19% | 44% | 22% | 10% |
| 6-10 mlynedd | 22% | 24% | 26% | 18% |
| 11-15 mlynedd | 14% | 9% | 18% | 13% |
| 16-20 mlynedd | 11% | 8% | 13% | 9% |
| 21-25 mlynedd | 10% | 4% | 9% | 11% |
| 26-30 mlynedd | 7% | 1% | 5% | 10% |
| 31-40 mlynedd | 9% | 1% | 2% | 16% |
| 41+ mlynedd | 6% | 0% | 2% | 10% |

## 2.6 Mewnfudo ac allfudo

Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn tynnu sylw at broses sylweddol o fudo, i mewn ac allan o Gymru wledig. Dywedodd mwyafrif sylweddol o ymatebwyr (87%) nad oeddent wastad wedi byw yn eu hardal leol, ac o'r rhain roedd ychydig dros chwarter (26%) wedi dychwelyd i ardal lle roeddent yn arfer byw. Roedd symudiadau pellter byr yn fwy cyffredin na'r rhai rhwng rhanbarthau neu ar draws pellterau mwy. Er enghraifft, roedd 38% wedi symud i ardal a leolwyd yn llai na phum milltir i ffwrdd o'u man preswyl blaenorol, ac roedd 25% arall wedi symud pellter rhwng pump ac 20 milltir. Roedd cyfran lai o ymatebwyr (15%) wedi symud o ardal a leolwyd rhwng 20 a 100 milltir i ffwrdd, tra bod 23% wedi symud pellter o fwy na 100 milltir.

Roedd llai na hanner (44%) o'r mudwyr wedi byw mewn pentref cefn gwlad o'r blaen neu mewn eiddo neu fferm yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, roedd 35% wedi byw mewn tref a 19% mewn neu o gwmpas dinas, sy'n pwyntio at symud o ardaloedd trefol i rai gwledig.

Pan holwyd am eu cymhellion dros symud i'w man preswylo cyfredol, nododd draean o ymatebwyr resymau personol, gan gynnwys sefydlu cartref gyda phartner neu briod, gadael ty'r rhieni i fyw ar eu pennau eu hunain ac awydd i fod yn agos at deulu a ffrindiau; roedd 26% wedi symud i'w hardal i ddod o hyd i eiddo mwy neu fwy addas; a nododd 16% resymau cyflogaeth. Roedd rhesymau eraill dros symud yn cynnwys ymddeol a chwilio am ansawdd bywyd gwell (5% a 13% yn y drefn honno).

Yn debyg i arolygon blaenorol, mae canlyniadau arolwg 2010-11 yn tynnu sylw at batrwm o allfudo o Gymru wledig. Nododd ychydig dros un allan o bump (22%) o ymatebwyr fod aelod o'u cartref wedi symud allan yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Tra bod cyfran sylweddol (43%) wedi aros yng Nghymru wledig, roedd 29% wedi symud i Loegr ac roedd 20% wedi adleoli i ardal arall yng Nghymru. O ran demograffeg yr allfudwyr, mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif (88%) o dan 35 oed. Y tri phrif reswm a roddwyd gan ymatebwyr dros symud allan o'r cartref oedd mynd i'r coleg neu'r brifysgol (29%); sefydlu cartref yn rhywle arall (28%); a dod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth gwell mewn ardal newydd

(19%). Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd yn fras â rhai'r arolygon blaenorol, fel y dangosir yn Nhabl 2.4.

**Tabl 2.4 Cymharu patrymau allfudo o Gymru wledig**

| Blwyddyn Arolwg | Symud yn lleol | Rhywle arall yng Nghymru wledig | Rhywle arall yng Nghymru | Y Tu Allan i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| 2004 | 37% | 12% | 11% | 38% |
| 2007 | 41% | 6% | 17% | 36% |
| 2010-11 | 35% | 8% | 20% | 36% |

## 2.7 Ethnigrwydd a Hunaniaeth Genedlaethol

O ran ethnigrwydd, diffiniodd 99% o'r ymatebwyr eu hunain fel gwyn.

O ran hunaniaeth genedlaethol hunan ddiffiniedig, roedd ychydig dros yr holl ymatebwyr (51%) yn diffinio eu hunain fel Cymry; roedd 29% yn diffinio eu hunain fel Prydeinwyr; roedd 16% yn diffinio eu hunain fel Saeson; a 4% fel rhywbeth arall. Gan edrych yn fanwl ar yr ystadegau hyn, mae perthynas rhwng oedran a hunaniaeth genedlaethol hunan ddiffiniedig, gydag ymatebwyr iau - y rhai dan 35 oed - yn fwy tebygol o ddiffinio'u hunain yn Gymry, o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill (gweler Tabl 2.5 isod).

**Tabl 2.5 Hunaniaeth Genedlaethol yn ôl oedran**

| Hunaniaeth Genedlaethol | Pob un | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth | 51% | 58% | 54% | 47% |
| Prydeinig | 29% | 27% | 28% | 30% |
| English | 16% | 10% | 14% | 19% |
| Arall | 4% | 6% | 4% | 3% |

Yn ddiddorol, roedd bron hanner yr holl ymatebwyr 55 oed ac yn hyn yn diffinio eu hunain fel Prydeinwyr neu Saeson, sy'n awgrymu bod rhai o'r bobl hyn, o bosibl, wedi symud i'r ardal at bwrpasau ymddeol. Fel y gellir disgwyl, roedd ymatebwyr oedd wedi byw yn eu hardal leol am gyfnodau hirach yn fwy tebygol o ddiffinio eu hunain fel Cymry, o'u cymharu â mewnfudwyr mwy diweddar.

## 2.8 Yr Iaith Gymraeg

O ran sgiliau iaith Gymraeg, dywedodd 15% o bob ymatebwr ei fod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Fodd bynnag, os cynhwysir yr ymatebwyr hynny a allai siarad yr iaith yn 'eithaf da', mae canran y siaradwyr Cymraeg yn codi i 24%. Mae'r niferoedd hyn ychydig yn is na'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer arolygon 2004 a 2007, er bod canlyniadau 2010-11 yn datgelu bod cyfran uwch o ymatebwyr yn gallu siarad ychydig o frawddegau neu ychydig o eiriau – yn 54%, o'i gymharu â 47% yn 2007 a 33% yn 2004. Roedd dros bumed (22%) yn dweud nad oedent yn gallu siarad Cymraeg; ychydig yn llai nag yn yr arolygon blaenorol.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng gallu yn y Gymraeg a hyd y preswylo ac oedran (gweler Tabl 2.6 a Thabl 2.7). Roedd ychydig o dan dri ymhob deg (29%) o ymatebwyr oedd wedi byw yn eu heiddo cyfredol am 21 o flynyddoedd neu'n hirach naill ai'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu yn gallu siarad yr iaith yn eithaf da, o'i gymharu ag 20% oedd wedi byw yn eu cartref cyfredol am lai na chwe blynedd. Rodd cyfran yr ymatebwyr hynny a oedd yn fedrus yn y Gymraeg yn tueddu i leihau yn y categorïau oedran hyn.

**Tabl 2.6 Gallu Cymraeg yn ôl hyd y preswylio**

| | Pob un | 5 mlynedd neu lai | 6-20 mlynedd | 21 mlynedd neu fwy |
|---|---|---|---|---|
| Rhugl | 15% | 12% | 14% | 19% |
| Eithaf da | 9% | 8% | 9% | 10% |
| Siarad ychydig o frawddegau | 21% | 22% | 21% | 18% |
| Dim ond ychydig o eiriau | 33% | 33% | 33% | 32% |
| Ddim o gwbl | 22% | 24% | 22% | 21% |

**Tabl 2.7 Gallu Cymraeg yn ôl oedran**

| | Pob un | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|
| Rhugl | 15% | 17% | 16% | 14% |
| Eithaf da | 9% | 10% | 10% | 8% |
| Siarad ychydig o frawddegau | 21% | 26% | 22% | 18% |
| Dim ond ychydig o eiriau | 33% | 28% | 31% | 35% |
| Ddim o gwbl | 22% | 18% | 20% | 25% |

O ran defnyddio'r Gymraeg ym mywyd bob dydd, dywedodd 47% eu bod yn siarad Cymraeg y rhan fwyaf o'r amser gartref, ac 20% eu bod weithiau yn siarad Cymraeg gartref. At hyn, dywedodd 35% eu bod yn bennaf yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle, a 26% arall eu bod yn defnyddio Cymraeg weithiau yn y gwaith. Darperir ffigurau ar gyfer defnydd y Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned a chyda ffrindiau a chymdogion yn Nhabl 2.8.

**Tabl 2.8 Defnydd y Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wledig**

| | Yn bennaf | Weithiau | Prin | Byth | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gartref | 47% | 21% | 15% | 16% | 2% |
| Yn y gwaith | 35% | 26% | 8% | 5% | 26% |
| Gyda ffrindiau a chymdogion | 42% | 32% | 15% | 10% | 0% |
| O fewn y gymuned | 35% | 34% | 16% | 12% | 2% |

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn tynnu sylw at wahaniaethau daearyddol nodedig yn hyfedredd iaith Gymraeg ar draws Cymru wledig. Nid yw'n syndod fod gan gadarnleoedd traddodiadol Cymru wledig gynrychiolaeth gref o siaradwyr Cymraeg, gyda'r cyfrannau uwch yng Ngwynedd (49%), Ynys Môn (35%), Sir Gaerfyrddin (25%) a Cheredigion (24%). Cynyddodd y cyfrannau hyn pan gafodd yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn gallu siarad yr iaith yn eithaf da eu cynnwys. Mae Tabl 2.9 yn dangos cyfran siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl ardal Awdurdod Lleol.

---

**Tabl 2.9 Cyfran y siaradwyr Cymraeg rhugl mewn Awdurdodau Lleol a arolygwyd**

| | Siarad Cymraeg yn rhugl |
|---|---|
| Pob un | 15% |
| Sir Gaerfyrddin | 25% |
| Ceredigion | 24% |
| Conwy | 13% |
| Sir Ddinbych | 14% |
| Sir y Fflint | 10% |
| Gwynedd | 49% |
| Ynys Fôn | 35% |
| Sir Fynwy | 1% |
| Sir Benfro | 6% |
| Powys | 8% |
| Bro Morgannwg | 2% |
| Wrecsam | 5% |
| Awdurdod Lleol Arall a arolygwyd | 5% |

**Canfyddiadau allweddol**

- Roedd 65% o gartrefi yn yr arolwg o Gymru wledig yn cynnwys dau aelod neu lai. Roedd 24% yn gartrefi un person.
- Roedd tri o bum cartref un person yn byw ar incwm o lai na £10,000.
- Roedd 49% o ymatebwyr yn berchen ar eu cartref yn gyfan gwbl.
- Roedd ychydig dros draean o ymatebwyr wedi byw yn eu heiddo presennol am fwy nag 20 mlynedd, tra bod ychydig dros un o bum ymatebwr wedi byw yn eu heiddo am lai na phum mlynedd. Roedd y grwpiau oedran hyn yn tueddu i fod wedi bod yn eu cartref yn yr hirdymor.
- Dywedodd 87% o ymatebwyr nad oeddent wastad wedi byw yn eu hardal leol. O'r ffigur hwn, roedd 26% wedi dychwelyd i fyw mewn ardal lle roeddent yn arfer byw.
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr (55%) yn ystyried eu hunain yn Gymry.
- Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o siarad Cymraeg ac ystyried eu hunain yn Gymry.
- Siaradodd 24% o ymatebwyr y Gymraeg, naill ai'n rhugl neu'n eithaf da.
- Nid oedd 22% o ymatebwyr yn gallu siarad Cymraeg.

# ADRAN 3 CYD-DESTUN LLEOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDO

## 3.1 Rhagymadrodd

Yn hanesyddol, ystyriwyd bod cymunedau lleol yn cynnwys ysbryd cymunedol 'traddodiadol' gyda chyfraddau uchel o gyfranogiad. Fodd bynnag, ystyrir bod cymunedau gwledig yn agored i ffactorau fel ailstrwythuro amaethyddol a newid poblogaeth, yn enwedig allfudo pobl ifanc a mewnfudo pobl wedi ymddeol a pherchnogion ail gartrefi. Yng Nghymru wledig, ystyrir bod diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffactorau ychwanegol, pwysig, sydd yn arbennig o agored i niwed.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â gweithgareddau ar y cyd a sefydliadau lleol, cyfranogiad dinesig ehangach, rhyngweithiau cymdeithasol lleol, a phrofiadau a chanfyddiadau cyfranogwyr o fywyd cymunedol.

Mae'r adran hon wedi'i strwythuro o gwmpas y themâu canlynol:

- Rhyngweithio Cymdeithasol Lleol
- Sefydliadau Lleol
- Gweithgaredd Cymdeithasol
- Ymdeimlad o Gymuned a Chyfranogi

## 3.2 Rhwydweithiau teuluol a chymunedol

Mae'r data'r arolwg yn pwyntio at fodolaeth rhwydweithiau teuluol a chymunedol agos ymhlith cartrefi gweledig: dywedodd 31% o bob ymatebwr eu bod yn byw o fewn un filltir i aelod agos o'r teulu; dywedodd 19% eu bod yn byw mwy nag un filltir ond yn llai na phum milltir o aelod o'r teulu; a 10% yn fwy na phum milltir ond llai na deng milltir. Mae hyn yn dangos bod mwyafrif sylweddol o ymatebwyr (60%) yn byw o fewn 10 milltir o leiaf i un aelod o'r teulu. Mae'r canlyniadau hyn yn fras yn cytuno â'r ffigurau cyffelyb ar gyfer arolygon 2007 a 2004.

Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o fyw'n agos at aelod o'r teulu, gyda 60% o ymatebwyr yn y grwp oedran o dan 35 yn dweud bod aelod o'r teulu'n byw llai na phum milltir i ffwrdd, o'i gymharu â 45% o'r grwp 55 a hyn. Mae ffigurau'n dangos hyd y rhwydweithiau teuluol yn ôl pob categori oedran yn Nhabl 3.1 isod.

Mae'r ganran gymharol uchel o ymatebwyr yn y categori dros 55 oed (28%) a ddywedodd fod aelodau eu teulu'n byw 50 milltir neu ragor i ffwrdd yn dangos patrymau o fewnfudo yn y grwp oedran hwn.

**Tabl 3.1 Agosrwydd aelodau'r teulu yn ôl categori oedran**

| | Pob un | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|
| Llai nag 1 filltir i ffwrdd | 31% | 41% | 33% | 27% |
| Mwy nag 1 filltir ond llai na 5 milltir i ffwrdd | 19% | 19% | 21% | 18% |
| 5 milltir neu fwy ond yn llai na 10 milltir i fwrdd | 10% | 10% | 10% | 11% |
| 10 milltir neu fwy ond llai na 50 milltir i ffwrdd | 14% | 10% | 15% | 15% |
| 50 milltir neu fwy | 24% | 19% | 20% | 28% |
| Dim teulu arall | 1% | 1% | 0% | 1% |
| Ddim yn gwybod | 0% | 0% | 0% | 0% |

Roedd ymatebwyr oedd wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau yng Nghymru'n llawer mwy tebygol o fod â rhwydwaith teuluol lleol, gyda bron tri o bob pump (59%) yn dweud eu bod yn byw llai na phum milltir o aelod o'r teulu. I'r gwrthwyneb, dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr a oedd wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau y tu allan i Gymru bod yr aelod agosaf o'u teulu'n byw 50 milltir neu fwy i ffwrdd. Yn yr un modd, ymddengys fod hyd preswylo'n dylanwadu ar lefelau cysylltiadau teulu, gyda bron tri o bob pum ymatebwr (57%) oedd wedi byw yn eu heiddo cyfredol am fwy nag 20 mlynedd yn dweud bod aelod o'r teulu'n byw llai na phum milltir i ffwrdd.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod hunaniaeth genedlaethol a sgiliau Cymraeg yn ffactorau allweddol o ran dylanwadu ar rwydweithiau teulu lleol yng Nghymru wledig. Roedd bron dwy ran o dair (64%) o ymatebwyr oedd yn ystyried eu hunain i fod yn Gymry yn byw llai na phum milltir i fwrdd o aelod o'r teulu, a oedd yn gyfran llawr uwch nag ar gyfer cenhedloedd eraill. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr hynny a siaradai Gymraeg, naill ai'n rhugl neu'n eithaf da, yn llai tebygol o fyw ar bellter sylweddol i ffwrdd o deulu agos, gyda 61% o'r ymatebwyr hynny'n dweud eu bod yn bod yn byw o fewn pum milltir i aelod arall o'r teulu. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y rhai nad oeddent yn siarad unrhyw Gymraeg o gwbl oedd 45%. At hynny, nid oedd gan 35% o ymatebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl unrhyw aelod o'r teulu o fewn radiws o 50 milltir.

Gan edrych yn fanylach at hyd rwydweithiau teuluol a chymunedol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod gan hanner yr holl ymatebwyr rhwng un a 10 ffrind neu aelodau teulu agos yn byw o fewn pum milltir i'w cartref, ac roedd gan 38% arall fwy na 10 ffrind neu aelod agos o'r teulu'n byw gerllaw. Nid oedd hyd y rhwydweithiau teuluol a chymunedol yn amrywio'n arwyddocaol gydag oedran, er fel o'r blaen, roedd gan yr ymatebwyr hynny oedd wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau'n byw yng Nghymru, oedd wedi byw yn eu heiddo presennol am y cyfnod hiraf, ac a siaradai Gymraeg naill ai'n rhugl neu'n eithaf da, y rhwydweithiau teuluol a chymunedol ehangaf neu gryfaf.

Yn debyg i'r arolygon blaenorol, mae canfyddiadau 2010-11 yn dangos hyd y rhyngweithio cymunedol o fewn Cymru wledig, gyda 49% yn siarad â'u cymdogion y rhan fwyaf o ddiwrnodau, a 37% yn dangos eu bod yn gwneud unwaith neu ddwywaith yr wythnos, sy'n pwyntio at lefelau cryf o ryngweithio cymunedol yng Nghymru wledig. Mae amrywiaethau'n amlwg ar draws nifer o gategorïau, y rhai mwyaf nodedig yw oedran, incwm a math o anheddiad. Yn gyntaf, roedd ymatebwyr yn y categorïau oedran uwch (y rhai 55 oed neu'n hyn) yn llawer mwy tebygol o siarad â'u cymdogion yn ddyddiol o'i gymharu â'r grwpiau iau.

Yn ail, yn nhermau incwm, roedd grwpiau incwm is yn fwy tebygol o ryngweithio gyda'u cymdogion yn ddyddiol o'i gymharu â'r rhai yn y categorïau incwm uwch. Fodd bynnag, pan gynhwysir ffigurau'n ymwneud â rhyngweithio'n wythnosol gyda chymdogion, mae'r ffigurau'n gwastatáu ar draws y categorïau incwm. Mae Tabl 3.2 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 3.2 Rhyngweithio gyda chymdogion yn ôl categori incwm**

| Siarad â chymdogion… | Pob un | Llai na £10,000 y flwyddyn | £10,000 - £20,999 | £21,000 - £30,999 | £31,000 - £51,999 | £52,000 neu fwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar y rhan o ddiwrnodau | 49% | 54% | 52% | 44% | 45% | 40% |
| Unwaith neu ddwywaith yr wythnos | 37% | 29% | 33% | 41% | 41% | 45% |
| Unwaith neu ddwywaith y mis | 9% | 9% | 8% | 9% | 10% | 9% |
| Llai nag unwaith y mis | 4% | 5% | 3% | 3% | 3% | 4% |
| Byth | 2% | 2% | 3% | 2% | 1% | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0% | 1% | 0% | 0% | 0% | 0% |

Yn drydydd, mae archwiliad pellach o nodweddion rhyngweithio â chymdogion yn datgelu amrywiaeth yn ôl math o anheddiad yr oedd yr ymatebwyr yn byw ynddynt. Er enghraifft, dywedodd 53% o bob ymatebwr oedd yn byw mewn pentref yng nghefn gwlad eu bod wedi siarad â'u cymdogion ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau, o'i gymharu â 48% ar gyfer y rhai oedd yn byw mewn tref neu ddinas a 34% o ymatebwyr oedd yn byw mewn eiddo neu fferm yng nghefn gwlad agored.

## 3.3 Cyfranogiad mewn gweithgareddau a sefydliadau lleol

Gwnaeth yr arolwg archwilio'n fanwl hyd ac aelodaeth sefydliadau lleol a chenedlaethol yng Nghymru wledig. Datgelodd fod 56% o'r holl ymatebwyr yn ymwneud â gweithgareddau a drefnwyd gan grwpiau neu gymdeithasau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, dywedodd 20% eu bod yn aelod o glwb chwaraeon; roedd 7% yn ymwneud â gweithgareddau'n gysylltiedig ag eglwys leol; ac roedd 6% yn ymwneud â grwp gwirfoddol neu elusennol lleol.

Mae archwiliad pellach o'r canlyniadau'n datgelu bod cyfranogiad o rai gweithgareddau, fel y rhai sy'n gysylltiedig â chlybiau neu ganolfannau chwaraeon lleol, yn tueddu i gynyddu gyda lefelau incwm. Roedd ychydig dros draean (35%) o ymatebwyr mewn cartrefi gydag incwm blynyddol o £52,000 neu ragor wedi dweud eu bod yn cymryd rhan reolaidd mewn gweithgareddau o'r fath, o'i gymharu â 9% o'r ymatebwyr hynny gydag incymau blynyddol cartrefi o lai na £10,000.

## 3.4 Ymgysylltiad y cyhoedd

Mae Tabl 3.3 isod yn dangos ymgysylltiad â gwleidyddiaeth yng Nghymru wledig yn ystod y deuddeng mis diwethaf: roedd 30% o ymatebwyr wedi bod i gyfarfod cyhoeddus; roedd 40% wedi llofnodi deiseb; roedd pumed wedi cysylltu â'u Cynghorydd lleol ac roedd 18% arall wedi cysylltu â'u Haelod Seneddol neu Aelod o'r Cynulliad. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i ganlyniadau'r arolygon blaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod y lefel o ymgysylltiad â gwleidyddiaeth yng Nghymru wledig tua'r un peth yn ystod y chwe blynedd ers arolwg 2004.

**Tabl 3.3 Cyfranogiad mewn gweithgareddau sifil a gwleidyddol yng Nghymru wledig yn y 12 mis diwethaf**

| Gweithgaredd yn ystod y 12 mis diwethaf | % o bob ymatebwr |
|---|---|
| Mynychu cyfarfod cyhoeddus | 30% |
| Cysylltu â'ch AS neu Aelod Cynulliad | 18% |
| Llofnodi deiseb | 40% |
| Cysylltu â'ch cynghorydd | 20% |
| Darparu gofal am gymdogion neu ffrindiau | 45% |
| Cwblhau arolwg o Gyngor neu grwp cymunedol | 25% |
| Cymryd rhan mwn protest neu wrthdystiad stryd | 3% |
| Dim o'r rhain | 26% |
| Ddim yn gwybod | 0% |

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos bod gweithgareddau gofal a chefnogaeth yn elfennau pwysig ym mywydau pobl yng Nghymru wledig.

Darparu gofal a ddenodd y gyfradd ymateb uwch, gyda 45% o bob ymatebwr a arolygwyd yn dweud ei fod wedi darparu gofal i gymdogion a ffrindiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae archwiliad pellach o'r data a gasglwyd ar weithgareddau gofal a chefnogaeth yng Nghymru wledig yn tynnu sylw at nifer o batrymau y mae'n werth sôn amdanynt.

Yn gyntaf, roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth, gydag ychydig o dan hanner (47%) yn dweud eu bod yn ymwneud â gweithgareddau o'r fath o'i gymharu â 42% ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi i gyfran yr ymatebwyr gwrywaidd oedd yn ymwneud â gweithgareddau gofal a chefnogi gynyddu ychydig o 39% yn 2007.

Yn ail, roedd ymatebwyr yn y categori oedran hyn yn fwy tebygol o ddarparu gofal a chefnogaeth i gymdogion neu ffrindiau, gyda 46% o'r rhai dros 55 yn dweud eu bod yn gwneud hyn yn rheolaidd, o'i gymharu â 45% ar gyfer yr ymatebwyr hynny rhwng 34 a 55 oed a 39% ar gyfer y rhai o dan 35 oed. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na'r canlyniadau cyfatebol ar gyfer arolwg 2007.

Yn drydydd, mae'n glir yr ymddengys fod hyd yr amser a dreulir yn byw mewn cymuned neu ardal yn cael effaith ar y tebygolrwydd y bydd ymatebwyr gwledig yn darparu gofal a chefnogaeth i gymdogion neu ffrindiau: roedd 46% o ymatebwyr oedd wedi byw yn eu heiddo am 20 mlynedd neu'n hirach yn ymwneud â'r fath weithgareddau, fel yr oedd 46% o'r rhai a oedd wedi treulio rhwng chwech ac 20 mlynedd yn eu cartref cyfredol, o'i gymharu â 39% o'r rhai oedd wedi byw yn eu heiddo am lai na chwe blynedd. Mae'r ffigurau hyn yn fras yn debyg i'r ffigurau ar gyfer yr arolygon blaenorol.

Yn bedwaredd, ymddangosodd fod hyd preswyl a sgiliau Cymraeg yn ffactorau allweddol o ran darparu gofal a chefnogaeth mewn cymunedau gwledig. Mae canlyniadau'r arolwg yn datgelu bod ychydig o dan hanner (49%) o'r holl ymatebwyr a oedd yn siarad Cymraeg, naill ai'n rhugl neu'n eithaf da, a chyfran ychydig yn llai sef 46% o ymatebwyr oedd wedi byw yn eu hardal leol am 21 o flynyddoedd yn dweud iddynt ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer cymdogion a ffrindiau o fewn eu cymuned.

## 3.5 Cyfranogiad mewn gwaith gwirfoddol

Mae canlyniadau'r arolwg yn datgelu bod 39% o ymatebwyr wedi gwneud rhyw fath o waith gwirfoddol ar gyfer elusen neu sefydliad lleol yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ffigurau cyfatebol a gofnodwyd ar gyfer arolwg 2007, yr ymatebodd 32% o ymatebwyr yn gadarnhaol. Nid yw'r canlyniadau'n dangos gwahaniaeth mewn ymatebion yn ôl rhyw ac oedran. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr hyn yn y categorïau incwm uwch yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â gweithgareddau o'r fath. Fel gyda ffurfiau eraill o weithgareddau cymdeithasol a gwleidyddol a drafodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae dadansoddiad yn datgelu perthynas gadarnhaol rhwng sgiliau Cymraeg ymatebwyr yng Nghymru wledig a'u hymwneud â gwaith gwirfoddol: dywedodd 45% o ymatebwyr a siaradodd Gymraeg naill ai'n rhugl neu'n eithaf da eu bod wedi gwneud gwaith gwirfoddol dros y 12 mis diwethaf, a oedd ychydig yn uwch na'r gyfran o'r rhai a siaradodd dim ond ychydig o eiriau neu frawddegau (40%) a'r rhai nad oeddent yn siarad unrhyw Gymraeg o gwbl (32%).

O ran y mathau o waith gwirfoddol a wneir gan ymatebwyr yn ystod y 12 mis blaenorol, yr ymatebion a roddwyd fwyaf oedd gweithgareddau codi arian, fel trefnu digwyddiadau cymunedol (26%), wedi'i ddilyn gan ddigwyddiadau codi arian ar gyfer elusen neu sefydliad penodol (13%). Roedd yr ymatebion sy'n weddill yn cynnwys gweithgareddau yn ymwneud â grwpiau ieuenctid lleol (7%) a'r Eglwys leol (7%), a gwirfoddoli mewn siop elusen leol (6%).

## 3.6 Cyfalaf cymdeithasol a chymuned leol

Mae agweddau eraill o gyfalaf cymdeithasol a ddatgelwyd gan yr arolwg yn cynnwys nodweddion sefydliadau cymdeithasol, fel rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol, a lefelau o ymddiriedaeth gymunedol, a hwylusodd gydlyniad a chydweithrediad cymunedol.

### (i) Ymdeimlad o gymuned

Cytunodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr (77%) a arolygwyd fod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol. Gan edrych yn fanwl ar yr ymatebion, nodwyd teimlad cryf o deimlad cymunedol gan fwyafrif yr ymatebwyr, ta waeth am oedran. Er enghraifft, cytunodd o leiaf 72% o ymatebwyr ym mhob categori oedran fod teimlad cryf o gymuned yn eu hardal leol. Nodwyd teimlad o gymuned hefyd gan gyfrannau uchel o newydd ddyfodiad ac ymatebwyr oedd yn byw yno ers tro. Er enghraifft, roedd 78% o ymatebwyr oedd yn byw yn eu hardal leol am 21 o flynyddoedd neu'n hirach; roedd 77% wedi byw yn eu heiddo am rhwng pump a 21 o flynyddoedd; ac roedd 76% wedi byw yn eu heiddo am lai na chwe blynedd yn cytuno bod teimlad o gymuned yn eu hardal leol.

### (ii) Agweddau at berthyn i gymuned

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba raddau roeddent yn ystyried eu hunain i fod yn aelod o'r gymuned leol. Gofynnwyd iddynt roi sgôr i'w hagweddau drwy ddewis un o bum categori, yn ymestyn o gadarnhaol i negyddol: 'cytuno'n gryf', 'tueddu i gytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', 'tueddu i anghytuno', ac 'anghytuno'n gryf'.

Roedd ychydig dros draean (37%) o ymatebwyr yn cytuno'n gryf pan holwyd nhw, ac roedd 41% arall yn tueddu i gytuno, gan ddarparu ymateb oedd yn bendant yn gadarnhaol. Roedd teimladau o fod yn perthyn i gymuned leol gryfaf ymhlith aelodau a oedd wedi byw yn yr un eiddo am 20 mlynedd neu fwy, gydag ychydig o dan hanner (46%) o'r ymatebwyr hyn yn cytuno'n gryf eu bod yn ystyried eu bod yn aelodau o'r gymuned leol. I'r gwrthwyneb, dim ond 28% o'r ymatebwyr oedd wedi byw yn eu heiddo am lai na chwe blynedd a gytunodd yn gryf â'r datganiad. Fodd bynnag, os cyfunir y categorïau 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno', roedd y mwyafrif llethol o fewnfudwyr yn cytuno eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y gallu i siarad Cymraeg, boed yn rhugl neu'n eithaf da, wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar ymlyniad i'r gymuned leol. Cytunodd mwyafrif sylweddol o ymatebwyr Cymraeg (85%) eu bod yn aelod gweithgar o'r gymuned leol. Roedd y gyfran yn ymateb yn gadarnhaol yn y ffordd hon ychydig yn is ymhlith y rhai a siaradodd dim ond ychydig o eiriau neu frawddegau Cymraeg (78%) a'r rhai na siaradodd unrhyw Gymraeg o gwbl (72%). Roedd yr ymatebwyr hyn nad oedd yn siarad unrhyw Gymraeg o gwbl yn fwy tebygol o ymateb yn negyddol pan holwyd nhw am eu rôl fel aelodau o'r gymuned leol, gyda 13% yn tueddu naill ai i anghytuno neu anghytuno'n gryf. Fodd bynnag, pan holwyd ymatebwyr ar y mater bod y gallu i siarad Cymraeg yn bwysig o ran eu galluogi i gyfranogi'n llawn yn yr ardal lle roeddent yn byw cytunodd 29% gyda'r datganiad, tra bod cyfran sylweddol (61%) yn teimlo nad oedd yn fater arwyddocaol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hynny a ystyriodd eu hunain fel 'Cymry' yn fwy tebygol o ystyried eu hunain fel rhan o'r gymuned leol, gydag 81% o ymatebwyr yn y categori hwn yn ymateb yn gadarnhaol pan holwyd nhw. Roedd hyn i'w cymharu gydag ymatebwyr a ystyriodd eu hunain yn 'Brydeinig' (76%), 'Sais' (73%) neu 'Ddim un o'r rhain' (78%).

Roedd teimladau o ymlyniad i'r gymuned leol yn uwch ymhlith y grwpiau oedran hyn, gyda 44% o bob ymatebwr 55 oed neu'n hyn yn cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol. Roedd ymglymiad â'r gymuned yn lleihau mewn grwpiau iau, gyda 31% o ymatebwyr rhwng 35-54 oed a 22% o ymatebwyr o dan 35 oed yn cytuno'n gryf.

### (iii) Undod Cymunedol

Gofynnwyd i ymatebwyr dangos i ba raddau eu bod yn meddwl bod pobl yn eu cymuned leol yn gofalu am ei gilydd. Derbyniodd y cwestiwn ymateb oedd yn bendant yn gadarnhaol: cytunodd 83% o ymatebwyr fod pobl yn eu cymuned leol yn gofalu am ei

gilydd. Dim ond 9% a anghytunodd. Mae dadansoddiad pellach yn datgelu bod y duedd i gytuno yn cynyddu gydag oedran.

### (iv) Canfyddiadau o fod yn ynysig

Gofynnwyd i ymatebwyr ymateb i'r datganiad 'Gall yr ardal rwy'n byw ynddi deimlo'n ynysig.' Yn gyffredinol, cytunodd 21% o ymatebwyr gyda’r datganiad hwn.

O ran oedran, cytunodd 28% o bob ymatebwr o dan 35 oed eu bod weithiau’n teimlo’n ynysig yn eu hardal. Y canlyniadau cyfatebol ar gyfer ymatebwyr 35-64 oed, a 65 oed a hyn yn 29% a 23% yn y drefn honno.

### (v) Canfyddiadau o ddiogelwch

Mae canlyniadau’r arolwg yn awgrymu bod Cymru wledig yn cael ei gweld fel lle cymharol ddiogel i fyw, gyda chysylltiadau cymunedol cryf. Roedd bron pob un (95%) o ymatebwyr yn teimlo’n ddiogel yn eu cymuned ac anghytunodd 86% gyda’r datganiad ‘Mae’r gyfradd troseddu yn yr ardal hon yn uchel’.

**Canfyddiadau Allweddol**

- Roedd hanner y cartrefi yn byw llai na phum milltir o aelod o'r teulu.

- Roedd hunaniaeth Gymreig a sgiliau iaith Gymraeg yn ffactorau allweddol yn dylanwadu ar hyd rhwydweithiau teuluol. Roedd 64% o'r rhai a ddiffiniodd eu hunain fel Cymry a 64% o'r rhai a siaradodd Gymraeg yn rhugl neu'n eithaf da yn byw llai na phum milltir o aelod o'r teulu.

- Dywedodd 87% o ymatebwyr eu bod yn siarad â'u cymdogion o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos, gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn gwneud hynny'r rhan fwyaf o ddiwrnodau. Roedd yr ymatebwyr hynny yn y grwpiau oedran iau, ar gategorïau incwm uwch, ac yn byw mewn eiddo neu fferm yng nghefn gwlad agored yn llai tebygol o wneud hynny.

- Roedd 64% o'r ymatebwyr yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r gymuned a drefnwyd gan grwpiau a chymdeithasau lleol a chenedlaethol.

- Dywedodd bron dau o bob pum ymatebwr iddynt wneud rhyw fath o waith gwirfoddol ar gyfer elusen neu sefydliad lleol yn ystod y deuddeng mis blaenorol. Roedd ymwneud â gwaith gwirfoddol yn fwy tebygol ymhlith ymatebwyr yn y categorïau incwm uwch.

- Roedd 45% o ymatebwyr wedi darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth i gymdogion neu ffrindiau yn ystod y 12 mis diwethaf.

- Roedd 78% yn ystyried eu hunain i fod yn rhan o'r gymuned leol. Roedd ymatebwyr a ddiffiniodd eu hunain fel Cymry'n fwy tebygol o ystyried eu hunain fel rhan o'r gymuned leol.

- Roedd 85% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno eu bod yn aelod gweithgar o'r gymuned leol.

- Roedd 95% yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Roedd ymatebwyr o dan 35 oed yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn byw yn eu cymuned.

- Roedd 21% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ynysig yn byw yn eu hardal leol. Ymddengys fod teimladau o fod yn ynysig yn lleihau gydag oedran.

## 4.1 Rhagymadrodd

Gellir dadlau, mae'r syniad o ddelfryd gwledig, gyda'r cysylltiadau o gyfoeth cymharol a chysylltiadau cymunedol cryf, wedi tueddu i guddio materion yn ymnweud â thlodi ac allgau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Mae'r adran hon yn archwilio'r materion hyn yng Nghymru wledig drwy ymchwilio i ganfyddiadau ymatebwyr o ran lles yn eu cymunedau. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r themâu canlynol:

- Crynodeb o wybodaeth lles a budd-daliadau ymatebwyr.
- Teimladau ymatebwyr ynglyn â'u hapusrwydd a lles yn gyffredinol.
- Materion ehangach o les ac ansawdd bywyd.

## 4.2 Incwm y cartref a derbyn budd-daliadau

Mae incwm cartrefi yn faes sensitif a chynigwyd ystod o incwm i gartrefi a gofynnwyd iddynt nodi'r ystod briodol yn hytrach na ffigur penodol. O'r 4,062 o ymatebwyr, dywedodd 22% naill ai nad oeddent yn gwybod eu hincwm neu gwnaethon nhw wrthod rhoi ateb i'r cwestiwn. Mae Tabl 4.1 yn dangos y cyfrannau ym mhob ystod incwm o'r 3,169 o gartrefi a ddarparodd y wybodaeth hon.

**Tabl 4.1: Incwm Blynyddol y Cartref**

| | Canran o gartrefi |
|---|---|
| Llai na £5,000 y flwyddyn | 3% |
| £5,000 - £9,999 | 14% |
| £10,000 - £14,999 | 17% |
| £15,500 - £20,999 | 14% |
| £21,000 - £30,999 | 23% |
| £31,000 - £51,999 | 17% |
| £52,000 neu ragor | 12% |

Mae archwiliad agosach o'r data incwm cartrefi yn dangos mynychder incymau isel yn ardaloedd gwledig Cymru. Roedd gan bron i hanner (48%) o'r cartrefi incwm blynyddol llai na £21,000, roedd 17% o'r rheini yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn. O'r cartrefi a oedd yn weddill, roedd gan 40% incwm blynyddol rhwng £21,000 a £51,999, ac roedd gan 12% o gartrefi incwm blynyddol gwerth £52,000 neu fwy.

O ran dosbarthiad daearyddol incymau isel yng Nghymru wledig, mae Tabl 4.2 yn dangos cyfrannau'r ymatebwyr gydag incwm blynyddol o lai na £10,000 ym mhob awdurdod lleol.

**Tabl 4.2 - cyfran y cartrefi gydag incwm blynyddol o dan £10,000 yn ôl Awdurdod Lleol**

| Awdurdod Lleol | CYFRIF | % o bob cyfweliad |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 17% |
| Sir Gaerfyrddin | 37 | 14% |
| Ceredigion | 34 | 14% |
| Conwy | 53 | 13% |
| Sir Ddinbych | 45 | 14% |
| Gwynedd | 54 | 14% |
| Sir Fynwy | 8 | 5% |
| Sir Benfro | 57 | 13% |
| Powys | 61 | 14% |
| Sir y Fflint | 25 | 13% |
| Wrecsam | 21 | 11% |
| Bro Morgannwg | 7 | 5% |
| ALl Ychwanegol* | 84 | 14% |
| **CYFANSWM YR AROLWG** | **528** | **13%** |

(ALl Ychwanegol = Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

Mae Tabl 4.2 yn tynnu sylw at y cyfrannau bach (5%) o gartrefi incwm isel yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg. Roedd

cyfrannau'r cartrefi gydag incymau isel yn yr awdurdodau lleol sy'n weddill yn yr ystod 11% - 14%, heblaw am Ynys Môn, a gofnododd 17%.
Ffynonellau incwm cartrefi yw gwaith a delir, incwm heb ei ennill, pensiynau a budd-daliadau. Yn nhermau incwm heb ei ennill, mae Tabl 4.3 yn dangos cyfrannau'r cartrefi gyda ffynonellau o incwm heb ei ennill.

**Tabl 4.3 Ffynonellau o incwm heb ei ennill**

| Ffynhonnell incwm | Cyfran o gyfanswm cartrefi |
|---|---|
| Incwm o eiddo | 8% |
| Llog o Gyfrif Cymdeithas Adeiladu a/neu Gyfrif Cynilion Banc | 38% |
| Difidendau o gyfranddaliadau | 22% |
| Incwm buddsoddi arall | 14% |
| Dim o'r rhain | 38% |

Gofynnwyd i ymatebwyr yn byw yn y 2119 o gartrefi a oedd yn 55 oed neu'n hyn os oeddent yn derbyn pensiwn preifat, rhanddeilad neu alwedigaethol: roedd 62% o'r cartrefi hyn yn cynnwys pobl sy'n derbyn pensiwn. Mae hyn yn cynrychioli 32% o gyfanswm sampl yr arolwg.

O ran budd-daliadau, mae Tabl 4.4 yn dangos cyfrannau'r cartrefi a arolygwyd sy'n derbyn ystod o fudd-daliadau. Dangosir data o arolwg 2007 i'w gymharu.

Mae Tabl 4.4 yn datgelu cynnydd yng nghyfrannau'r cartrefi sy'n derbyn pob budd-dal, heblaw am Gymhorthdal Incwm. Roedd y cynnydd mwyaf yng nghyfran y cartrefi yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini, Budd-dal y Dreth Gyngor, Budd-dal Tai neu Lwfans Tai Lleol, Lwfans Cynhaliaeth Addysg, a Lwfans Tanwydd Gaeaf.

**Tabl 4.4 Cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau**

| Budd-daliadau neu Gredydau Treth | 2007 % o gartrefi | 2010-11 % o gartrefi |
|---|---|---|
| Cymhorthdal Incwm | 5% | 4% |
| Lwfans Ceisio Gwaith | 1% | 2% |
| Budd-dal Analluogrwydd | 7% | 8% |
| Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini | 10% | 13% |
| Credyd Treth Gwaith | 9% | 10% |
| Budd-dal y Dreth Cyngor | 9% | 12% |
| Budd-dal Tai neu Lwfans Tai Lleol | 4% | 6% |
| Lwfans Hyfforddi | - | 0.3% |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg | 1% | 3% |
| Taliadau Tanwydd Gaeaf | 19% | 38% |
| Lwfans Gofalwyr | 3% | 4% |
| Eraill | 1% | 13% |
| Dim o'r rhain | 54% | 36% |

Mae'n bosibl priodoli'r cynnydd nodedig yn nifer yr ymatebwyr yn hawlio Lwfans Tanwydd Gaeaf, o 19% yn 2007 i 38% yn 2010/11, i'r cynnydd yng nghyfran y bobl yn hyn na 60 oed yng Nghymru wledig, o 28% yn 2007 i 30% yn 2010 - fel y'i nodwyd gan amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn yr ONS. Mae hefyd yn bosibl ei briodoli i'r ffaith fod y gaeaf caled diweddar wedi arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau am y lwfans.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oedd lefelau incwm yn eu hardal leol wedi gwella neu waethygu dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y gyfran fwyaf (42%) yn teimlo nad oedd incymau wedi newid. O'r rhai a oedd yn teimlo bod incymau wedi gwaethygu, roedd 23% yn teimlo eu bod wedi gwaethygu 'ychydig' ac roedd 16% yn teimlo bod incymau wedi gwaethygu 'llawer'. Dim ond 5% a deimlodd fod incymau yn eu hardal leol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn debyg i incwm, mae cynilion cartrefi yn bwnc sensitif. O'r herwydd, pan ofynnwyd ar gyfer amcangyfrif o gynilion eu cartref, cynigwyd ystodau yn hytrach na symiau penodol. Mae Tabl 4.5 yn dangos y data arbedion. Pwynt diddorol i'w nodi yw bod gan draean o gartrefi arbedion o lai na £1,000.

**Tabl 4.5 Cynilion Cartrefi (heblaw am werth eiddo)**

| Swm Cynilion Cartrefi | Cyfran y cartrefi |
|---|---|
| Llai na £1,000 | 33% |
| Rhwng £1,000 a £1,999 | 8% |
| Rhwng £2,000 a £4,999 | 12% |
| Rhwng £5,000 a £9,999 | 10% |
| Rhwng £10,000 a £19,999 | 11% |
| Rhwng £20,000 a £49,999 | 11% |
| Rhwng £50,000 a £99,999 | 6% |
| Dros £100,000 | 8% |

## 4.3 Gwariant cartrefi

Y prif wariant ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi, heblaw am y rhai sy'n berchen ar eu heiddo'n llwyr, yn tueddu i fod yn forgeisi neu daliadau rhent. Fel y nodwyd yn gynharach yn Adran 2, roedd 49% o'r cartrefi a arolygwyd yn berchen ar eu heiddo'n llwyr. Ar gyfer y cartrefi hynny a oedd yn talu morgais neu rent, mae Tabl 4.6 yn darparu syniad o'r symiau a daliwyd bob mis.

**Tabl 4.6 Morgais neu Rent y mis**

| Taliadau Morgais / Rhent Misol | Cyfran Y cartrefi |
|---|---|
| Dim | 7% |
| Llai na £50 | 3% |
| £50 – £99 | 5% |
| £100 – £199 | 8% |
| £200 – £299 | 15% |
| £300 – £399 | 17% |
| £400 – £499 | 14% |
| £500 – £699 | 17% |
| £700 – £999 | 9% |
| £1,000 neu ragor | 5% |

## 4.4 Hapusrwydd a Lles Cyffredinol

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau er mwyn deall y sefyllfa ariannol a sut y mae'n perthyn i'w lles cyffredinol. I fesur teimladau ymatebwyr yn ymwneud â digonolrwydd incwm eu cartref, neu fel arall, darparwyd cyfres o ddatganiadau iddynt (a ddangosir yn Nhabl 4.7) a gofynnwyd pa un oedd agosaf at eu sefyllfa gyfredol.

**Tabl 4.7 Digonolrwydd incwm**

| Datganiad | Cyfran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Yn byw'n gyfforddus ar incwm presennol | 34% |
| Ymdopi ar incwm presennol | 48% |
| Yn ei chael yn anodd ar incwm presennol | 13% |
| Yn ei chael yn anodd iawn ar incwm presennol | 4% |
| Dim yn gwybod neu gwrthodwyd | 1% |

Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod 40% o ymatebwyr yn y cartrefi gydag incwm blynyddol o lai na £10,000 yn dweud eu bod yn ei chael yn 'anodd neu'n anodd iawn'.

Pan ofynnwyd faint o broblem y byddai pe bai'n rhaid i'r ymatebwyr ddod o hyd i £100 i dalu cost annisgwyl, dywedodd 3% y byddai'n amhosibl i'w chael a dywedodd 22% arall y byddai'n ei chael yn anodd, tra bod y mwyafrif o ymatebwyr (75%) yn teimlo y byddai'n eithaf hawdd. Roedd yr ymatebion hyn yn amrywio yn ôl lefel incwm y cartref, gyda 47% o gartrefi gydag incwm blynyddol o lai na £10,000 yn ei chael 'yn amhosibl' neu'n 'anodd' i ddod o hyd i'r fath symiau.

Cyflwynwyd dau senario wedyn yn ymwneud â darpariaeth 'cefnogaeth anffurfiol' a gofynnwyd iddynt ddewis yr un mwyaf priodol

*Senario 1:* Rydych yn sâl ac yn methu gadael eich gwely. Oes unrhyw un y gallwch ofyn iddo am help ac os felly, pwy?

*Senario 2:* Mae angen i chi fenthyg rhywfaint o arian am ychydig o ddiwrnodau i'ch helpu allan o drafferth ariannol. Oes unrhyw un y gallwch ofyn iddo am help ac os felly, pwy?

Mae Tabl 4.8 yn dangos yr ymatebion ar gyfer pob datganiad.

**Tabl 4.8 Argaeledd cefnogaeth anffurfiol**

| Cymhorthydd posibl | Senario 1: Os ydych yn sâl ac yn methu gadael eich gwely | Senario 2: Mae angen i chi fenthyg arian am ychydig o ddiwrnodau |
|---|---|---|
| Neb i ofyn iddo am help | 3% | 11% |
| Priod neu bartner | 48% | 18% |
| Aelod arall o'r cartref | 14% | 8% |
| Perthynas y tu allan i'r cartref | 42% | 53% |
| Ffrind | 23% | 15% |
| Cymydog | 16% | 2% |
| Cydweithiwr | 2% | 1% |
| Gwirfoddol neu gorff arall | 1% | 1% |
| Arall | 2% | 4% |
| Byddai'n well peidio â gofyn am help | <1% | 6% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 3% |

Dangosodd y data hwn wahaniaethau clir rhwng y ddau senario. Maent yn dangos bod pobl yn yr arolwg yn ystyried anhawster wrth ofyn am gymorth ariannol. I'r gwrthwyneb, cafodd pobl braidd dim anhawster o ran gofyn am help mewn sefyllfaoedd eraill, er enghraifft, wrth wynebu salwch. Priod, partneriaid, perthnasau, cymdogion a ffrindiau oedd y ffynonellau mwyaf cyffredin o help.

## 4.5 Iechyd, Salwch ac Anabledd

Mae iechyd preswylwyr gwledig yn agwedd bwysig ar eu lles a hapusrwydd yn gyffredinol. Gofynnwyd i ymatebwyr os oedden nhw neu aelod arall o'u cartref yn dioddef o salwch, anabledd neu wendid tymor hir a oedd wedi bod yn drafferth iddynt dros gyfnod o amser, neu a oedd â'r potential i effeithio arnynt dros gyfnod o amser. Dywedodd ychydig dros chwarter sampl yr arolwg (26%) fod ganddynt salwch, anabledd neu wendid tymor hir, a nododd 14% fod aelod arall o'u cartref yn dioddef o salwch, anabledd neu wendid tymor hir.

Ymddengys y ceir rhai cysylltiadau nodedig rhwng salwch, anabledd neu wendid tymor hir a ffactorau'n ymwneud ag oedran, incwm a dosbarth cymdeithasol. O ran oedran, roedd gan 35% o ymatebwyr 55 oed neu'n hyn salwch, anabledd neu wendid tymor hir. O ran incwm, roedd gan 46% o ymatebwyr mewn cartrefi gydag incwm cartref blynyddol o lai na £10,000 salwch, anabledd neu wendid tymor hir. Mewn perthynas â dosbarth cymdeithasol, roedd gan 38% o ymatebwyr yn nosbarth cymdeithasol DE salwch, anabledd neu wendid tymor hir.

## Materion ehangach o les ac ansawdd bywyd

Tra yr ystyrir iechyd ac incwm fel y prif benderfynwyr o ansawdd lles, caiff nifer o ffactorau ychwanegol fel eiddo personol (e.e. teledu, ffonau, y rhyngrwyd a band eang) eu gweld fel dymunol, os nad yn hanfodol ar gyfer bywyd modern.

Roedd gan nifer sylweddol o sampl yr arolwg, sef 81%, gyfrifiadur personol gyda chysylltiad Band Eang yn yr eiddo. Fodd bynnag, o'r 784 o gartrefi a ddywedodd nad oedd ganddynt fynediad at fand eang yn eu heiddo, roedd gan 39% incwm blynyddol o lai na £9,999; roedd gan 24% incwm blynyddol o rhwng £10,000 a £20,999; roedd 33% wedi'u dynodi i Ddosbarth Cymdeithasol DE; a disgrifiwyd 30% fel 'anweithgar yn economaidd'.

At hyn, roedd gan 9% o'r cartrefi hyn gyfrifiadur personol gyda chysylltiad Rhyngrwyd drwy ddeialu. roedd gan 13% gyfrifiadur personol heb gysylltiad rhyngrwyd; ac nid oedd gan 78% gyfrifiadur. Roedd cartrefi yn y categorïau incwm is yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn berchen ar gyfrifiadur.

O ran mynediad at y rhyngrwyd y tu allan i eiddo'r cartref, roedd gan 49% o holl sampl yr arolwg fynediad i'r rhyngrwyd yn y gwaith neu mewn caffi. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw mynediad at y rhyngrwyd o reidrwydd yn gyfyngedig i gyfrifiadur; roedd gan 47% o holl sampl yr arolwg ffôn symudol neu ddyfais debyg a alluogodd fynediad at y rhyngrwyd. Roedd mwyafrif sylweddol o gartrefi (81%) yn berchen ar ffôn symudol.

Roedd gan nifer fawr deledu digidol, ac roedd gan 93% o holl sampl yr arolwg wasanaeth cebl, lloeren, Freeview neu deledu digidol arall yn eu cartref.

## 4.7 Canfyddiadau o les ac ansawdd bywyd pobl eraill

Gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd eu barn ar sut roedd pobl eraill yn ei wneud yn eu hardal. Pan holwyd nhw ynglyn ag a oedd yna bobl yn byw mewn tlodi yn eu hardal leol, cytunodd ychydig dros hanner pob cartref (52%) – cynnydd ar y ffigur a gofnodwyd yn arolwg 2007 (43%). Mae Tabl 4.9 yn cymharu data 2007 a 2010-11 yn ôl ardal awdurdod lleol.

**Tabl 4.9** **Canfyddiadau o dlodi yn ôl Ardal Awdurdod Lleol**

| Ardal Awdurdod Lleol | 2007 (OES) | 2010-11 (OES) |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 45% | 53% |
| Gwynedd | 51% | 56% |
| Conwy | 46% | 56% |
| Sir Ddinbych | 45% | 56% |
| Sir y Fflint | 36% | 45% |
| Wrecsam | 34% | 43% |
| Powys | 39% | 48% |
| Ceredigion | 43% | 53% |
| Sir Benfro | 43% | 54% |
| Sir Gaerfyrddin | 45% | 48% |
| Bro Morgannwg | 25% | 39% |
| Sir Fynwy | 41% | 42% |

Ar draws pob awdurdod lleol, roedd canfyddiadau bod pobl yn byw mewn tlodi'n gyson yn uwch yn 2010-11 nag yn 2007. Roedd y cynnydd lleiaf yn Sir Fynwy, y rhan fwyaf ffyniannus o Gymru, a welodd gynnydd o un pwynt canran. Roedd gan ardaloedd awdurdodau eraill gynnydd llawer mwy yn ymestyn o bedwar pwynt canran yn Sir Gaerfyrddin i 14 pwynt canran ym Mro Morgannwg. Tra bod gan Wynedd gynnydd gymharol fach o 51% i 56%, roedd ganddi eisoes y gyfradd uchaf o ganfyddiad o dlodi yn 2007. Yn 2010-11, cofnododd unwaith eto'r lefel uchaf, ynghyd â Chonwy a Sir Ddinbych.

Gan edrych yn fanylach at yr ymatebion, ymddengys fod pobl hyn yn llai tebygol o ganfod tlodi yn eu hardal leol. Cydnabu 44% o'r rhai dros 55 oed bresenoldeb tlodi yn eu hardal leol, o'i gymharu â 60% ar gyfer y grwp oedran 35-54 a 62% ar gyfer y grwp oedran 16-34. Roedd canfyddiadau o dlodi hefyd yn tueddu i fod yn uwch ymhlith ymatebwyr oedd wedi byd yn yr ardal am y cyfnod byrraf: cytunodd 44% o'r rhai a oedd yn byw yn yr ardal am fwy nag 20 mlynedd fod pobl yn byw mewn tlodi yn eu hardal, o'i gymharu â'r rhai oedd wedi byw yn yr ardal am lai na phum mlynedd (56%) a rhwng chwech ac 20 mlynedd (55%).

Fel cwestiwn atodol, dangoswyd rhestr o grwpiau cymdeithasol a gofynnwyd iddynt nodi pa grwpiau oedd mwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi yn eu hardal leol. Dangosir yr ymatebion mwyaf amlwg yn Nhabl 4.10.

**Tabl 4.10 Mathau o bobl y canfyddir eu bod mewn tlodi**

| Grwp | Canfyddir gan (Sylfaen: 2,102) |
|---|---|
| Pobl ddi-waith | 46% |
| Pobl hyn | 42% |
| Rhieni sengl | 17% |
| Pobl iau | 15% |
| Pobl o deuluoedd incwm isel | 15% |
| Teuluoedd gyda phlant ifanc | 13% |
| Pobl ag anableddau corfforol | 6% |

**Canfyddiadau Allweddol**

- Roedd 42% o ymatebwyr yn teimlo nad oedd incwm wedi newid yn eu hardal leol dros y pum mlynedd diwethaf, tra bod 39% yn teimlo bod lefelau incwm wedi gwaethygu.
- O'r 3,169 o gartrefi a ddarparodd wybodaeth am eu hincwm, roedd gan 48% o gartrefi incwm blynyddol yn llai na £21,000, yr oedd gan 17% ohonynt incwm o lai na £10,000.
- Roedd 62% o gartrefi'n cynnwys pobl 55 oed neu'n hyn yn derbyn pensiwn preifat, rhanddeilad neu alwedigaethol.
- Mae'r arolwg yn dangos cynnydd yng nghyfran yr ymatebwyr yn derbyn budd-daliadau o'i gymharu â 2007.
- Dywedodd 40% o ymatebwyr mewn cartrefi gydag incwm blynyddol o lai na £10,000 eu bod yn ei chael yn 'anodd' neu'n 'anodd iawn' ar eu hincwm presennol.
- Byddai 22% o ymatebwyr yn ei chael yn anodd dod o hyd i £100 i dalu am gostau annisgwyl, a byddai'n amhosibl i 3%.
- Roedd gan 33% o gartrefi gynilion o lai na £1,000.
- Roedd gan 26% o ymatebwyr salwch, anabledd neu wendid tymor hir.
- Roedd gan 81% o gartrefi gyfrifiadur gyda chysylltiad band eang.
- Roedd cartrefi heb fand eang yn tueddu i fod ag incymau isel, cael eu categoreiddio fel dosbarth cymdeithasol DE, a bod ag aelodau oedd yn anweithgar yn economaidd.
- Roedd gan 47% ffôn symudol neu ddyfais debyg gyda mynediad at y rhyngrwyd.
- Roedd 52% o ymatebwyr yn meddwl bod pobl yn byw yn eu hardal mewn tlodi – mae hyn i'w gymharu â 43% yn 2007.

## 5.1 Rhagymadrodd

Yn y blynyddoedd diweddaraf, mae llawer o gymunedau lleol yng Nghymru wledig wedi colli gwasanaethau fel siopau, tafarndai, ysgolion, presenoldeb parhaol yr heddlu, a'u swyddfa bost. Gallai diffyg cymharol yn y ddarpariaeth gwasanaeth gael ei gwaethygu mewn ardaloedd gwledig drwy bellter a phellenigrwydd canfyddedig, yn gorfforol a gweinyddol, o ganolfannau gwasanaeth. Mae'r adran hon yn archwilio i ganfyddiadau o wasanaethau mewn ardaloedd gweledig, a mynediad atynt.

## 5.2 Mynediad at wasanaethau yng Nghymru wledig

Archwiliodd yr arolwg a brofodd cartrefi yng Nghymru wledig unrhyw anawsterau o ran mynediad at wasanaethau allweddol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd fel ysbyty, meddygfa neu ddeintydd, siopau bwyd, cyfleusterau hamdden ac ati. Dywedodd hanner yr holl ymatebwyr nad oedd eu cartref wedi profi unrhyw anawsterau o ran mynediad at y gwasanaethau hyn o fewn eu hardal.

Y gwasanaethau oedd yn fwyaf tebygol o achosi problemau o ran mynediad oedd gwasanaethau hamdden fel sinemâu, y bu i ond chwarter (23%) o bob ymatebydd sôn amdano; gorsafoedd heddlu (16%); ysbytai (15%); a deintyddfeydd (14%) Codwyd pryderon ynghylch mynediad at wasanaethau lleol eraill fel banciau neu gymdeithasau adeiladu, clybiau cymdeithasol, gorsafoedd petrol a pheiriannau codi arian am ddim gan gyfrannau llai o ymatebwyr. Er enghraifft, roedd 12% wedi cael problemau defnyddio banc neu gymdeithas adeiladu; cafodd 10% anawsterau defnyddio canolfan hamdden; a dywedodd 9% fod problemau o ran cyrraedd clwb cymdeithasol neu orsaf petrol.

Mae'r canlyniadau hefyd yn awgrymu nad oedd anawsterau o'r fath yn gyffredin ar draws Cymru - roedd problemau o ran mynediad yn effeithio ar rai grwpiau ac ardaloedd yn fwy nag eraill. Mae archwiliad mwy manwl o'r canlyniadau

o ran mynediad cyffredinol i wasanaethau iechyd a masnach allweddol yng Nghymru wledig, fel ysbytai, meddygfeydd a deintyddfeydd, archfarchnadoedd a gorsafoedd petrol, yn dangos bod cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o gael anawsterau i ddefnyddio'r ystod hon o wasanaethau. Er enghraifft, roedd 20% o ymatebwyr gydag incwm cartref blynyddol o lai na £21,000 wedi cael anawsterau i gyrraedd eu hysbyty agosaf, o'i gymharu â 12% o'r ymatebwyr hynny gydag incymau cartref blynyddol o fwy na £52,000 y flwyddyn. Mae'r ffigurau ar gyfer meddygfeydd, deintyddfeydd, archfarchnadoedd a gorsafoedd petrol yn dangos patrwm tebyg.

Mewn perthynas â daearyddiaeth, roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn byw naill mewn pentref neu mewn eiddo yn y cefn gwlad agored yn fwy tebygol o ddweud iddynt gael anawsterau defnyddio gwasanaethau na'r rhai mewn aneddiadau gwledig mwy. Y problemau mwyaf y bu sôn amdanynt gan y mathau hynny o ymatebwyr oedd y rhai'n ymwneud â mynediad at orsafoedd heddlu, ysbytai, deintyddfeydd a banciau a chymdeithasau tai. Mae rhai gwahaniaethau daearyddol amlwg, yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau iechyd fel ysbytai a deintyddfeydd, hefyd yn amlwg pan gaiff y ffigurau eu dadelfennu yn ôl ardal awdurdod lleol. Er enghraifft, roedd anawsterau o ran defnyddio gwasanaethau ysbyty'n fwy aml yn y rhan fwyaf o Gymru wledig, gyda 32% o ymatebwyr ym Mhowys yn adrodd problemau o'r fath, wedi'i dilyn gan Wynedd (29%) a Cheredigion (15%), o'i gymharu ag ardaloedd mwy hygyrch fel

Sir y Fflint (10%), a Bro Morgannwg (10%) a Sir Fynwy (10%).

Ymddengys fod y canlyniadau'n cefnogi canfyddiadau'r ymchwil Gwledig Dwfn a wnaed gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008-9, a ddarganfu fod cau ysbyty lleol yn ddiweddar, ynghyd â lleihad mewn gwasanaethau ac oriau agor mewn ysbytai mewn rhai mannau o Gymru wledig, yn broblem fawr o ran gwasanaeth iechyd i ymatebwyr. Darparodd ymatebwyr enghreifftiau o deithiau hir i'r ysbyty agosaf, ac ym Mhowys roedd rhaid i ymatebwyr deithio i ysbytai mawr yn Lloegr fel Amwythig a Henffordd i gael triniaeth.

Gwnaeth yr arolwg hefyd ymchwilio i'r canfyddiad gan benteuluoedd yng Nghymru Wledig ynglyn â darparu gwasanaethau yn eu hardal leol a'u hasesiadau o'r gwasanaethau hynny. Roedd gofyn i ymatebwyr roi sgôr i ystod o wasanaethau yn eu hardal leol gan ddefnyddio un o dri opsiwn: 'da', 'gweddol' neu 'wael'. Yn gynwysedig yn y rhestr o wasanaethau roedd gwasanaethau'r GIG (fel meddygfeydd ac ysbytai), trafnidiaeth gyhoeddus, siopau bwyd, swyddfeydd post, banciau a chymdeithasau adeiladu, cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau hamdden, ysgolion a phlismona. Mae Tabl 5.1 yn crynhoi'r ymatebion yn ôl y categorïau gwahanol o wasanaethau.

**Tabl 5.1 Graddio Gwasanaethau Cyhoeddus**

| Cyfanswm 4071 | GIG | Plismona | Tân Gwasanaeth | Trafnidiaeth Gyhoeddus | Ysgolion | Siopau bwyd | Swyddfa Bost | Banciau a chymdeithasau adeiladu | Canolfan gymunedol | Cyfleusterau hamdden |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Da | 71% | 44% | 71% | 40% | 73% | 70% | 77% | 67% | 57% | 56% |
| Gweddol | 23% | 38% | 13% | 30% | 13% | 22% | 15% | 20% | 18% | 24% |
| Gwael | 5% | 12% | 1% | 23% | 2% | 7% | 5% | 9% | 5% | 11% |
| Dim ateb | 1% | 6% | 15% | 7% | 12% | 1% | 3% | 4% | 20% | 9% |

Roedd mwy na dau draean o'r holl ymatebwyr yn teimlo bod safon gwasanaethau swyddfa'r post, ysgolion, y gwasanaeth tân, gwasanaethau'r GIG, siopau bwyd, banciau a chymdeithasau adeiladu yn dda yn eu hardal. Derbyniodd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a phlismona'r sgoriau cadarnhaol isaf, yn 40% a 44% yn y drefn honno. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i'r rhai o arolygon blaenorol.

## 5.3 Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae astudiaethau eraill Arsyllfa Wledig Cymru yn dangos bod materion canfyddedig gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru wledig. Mae Tabl 5.1 uchod yn dangos i drafnidiaeth gyhoeddus barhau i dderbyn graddau cymeradwyo cymharol isel. Mae cwestiynau eraill a chroes dabliadau data arolwg cartrefi 2010-11 yn galluogi dadansoddiad pellach. Mae Tabl 5.2 yn dangos sut roedd pobl yn byw mewn mathau gwahanol o leoliad yng Nghymru yn graddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dangosir canlyniadau arolwg 2007 er cymhariaeth.

**Tabl 5.2 Canfyddiadau o Drafnidiaeth Gyhoeddus yn ôl math o ardal**

| Gradd | Tref neu Ddinas | | Pentref yn y Wlad | | Fferm neu eiddo yng nghefn gwlad | | Cymysgedd (cyfuniad o fathau o ardal) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2010-11 | 2007 | 2010-11 | 2007 | 2010-11 | 2007 | 2010-11 |
| Da | 45% | 52% | 33% | 39% | 17% | 14% | 35% | 37% |
| Gweddol | 26% | 28% | 29% | 31% | 23% | 31% | 29% | 31% |
| Gwael | 16% | 14% | 29% | 25% | 44% | 42% | 31% | 25% |
| Dim ateb | 12% | 6% | 10% | 5% | 17% | 13% | 6% | 7% |

Fel y gellir ei weld o'r tabl roedd cyfran yr ymatebwyr a raddiodd drafnidiaeth gyhoeddus fel 'da' wedi cynyddu rhwng 2007 a 2010-11 yn y pedwar categori gofodol, heblaw am y rhai a oedd yn byw ar fferm neu mewn eiddo yng nghefn gwlad. Lleihaodd nifer yr ymatebwyr a raddiodd drafnidiaeth gyhoeddus fel 'gwael' ym mhob categori yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod canfyddiadau gwael o ddarpariaeth drafnidiaeth gyhoeddus yn aros yn gymharol uchel ymhlith ymatebwyr sy'n bwy mewn pentref yng nghefn gwlad neu mewn fferm neu eiddo yng nghefn gwlad.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oeddent yn ystyried bod pobl eraill yn byw yn eu hardal leol yn cael problemau yn ymwneud ag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Yn gyffredinol, roedd 28% o'r sampl yn teimlo nad oedd pobl yn eu hardal yn wynebu unrhyw anawsterau o ran argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, tra bod chwarter yn dweud bod bron 'pawb' neu 'y rhan fwyaf' o bobl yn wynebu anawsterau o'r fath. At hynny, roedd 42% arall yn meddwl bod rhai pobl yn wynebu problemau. Dangosir y canlyniadau cyffredinol yn Nhabl 5.3 isod.

Ymddangosodd fod lleoliad preswylio'n cael effaith bwysig ar ganfyddiadau preswylwyr gwledig o'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal a sut yr effeithiodd ar bobl yn byw yn eu hardal. Mae Tabl 5.3 yn cyflwyno ymatebion yn ôl y math o ardal yr oedd preswylwyr yn byw ynddynt. Mae'r canlyniadau'n dangos bod pobl yn byw mewn trefi yng Nghymru wledig yn gweld bod llai o broblemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus na'r rhai'n byw mewn pentrefi neu yng nghefn gwlad agored. Yn wir, canfu 41% o breswylwyr a oedd yn byw mewn fferm neu ar eiddo yng nghefn gwlad agored fod 'pawb' neu'r 'rhan fwyaf' o bobl yn eu hardal leol yn cael problemau gydag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus.

**Tabl 5.3 Canfyddiadau pobl leol yn cael anawsterau yn ymwneud ag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn ôl math o ardal**

| Cyfran y bobl leol yn cael anawsterau | Cyffredinol | Tref neu Ddinas | Pentref yn y Wlad | Fferm neu eiddo Yng Nghefn Gwlad | Cymysgedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob un | 8% | 5% | 9% | 16% | 9% |
| Y rhan fwyaf | 17% | 12% | 18% | 25% | 18% |
| Ychydig | 42% | 43% | 43% | 40% | 36% |
| Dim | 28% | 35% | 28% | 12% | 25% |
| Ddim yn gwybod | 5% | 5% | 2% | 7% | 12% |

**Canfyddiadau Allweddol**

- Roedd cartrefi incwm isel yn fwyaf tebygol o gael anawsterau o ran defnyddio gwasanaethau iechyd a masnach.
- Roedd ymatebwyr oedd yn byw mewn pentref neu eiddo yng nghefn gwlad agored yn fwy tebygol o adrodd bod anawsterau o ran defnyddio gwasanaethau na'r rhai a leolwyd mewn anheddiadau gwledig mwy.
- Roedd y cyfrannau uchaf o ymatebwyr a adroddodd anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbytai ym Mhowys (32%), Gwynedd (29%) a Cheredigion (15%).
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn eithaf hapus gyda'r ddarpariaeth o wasanaethau yn eu hardal. Er hynny roedd pryderon yn ymwneud â'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus a phlismona.
- Roedd chwarter o ymatebwyr yn teimlo bod 'pawb' neu'r 'rhan fwyaf' o bobl yn eu hardal leol yn wynebu problemau'n ymwneud ag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus.
- Dywedodd 23% o ymatebwyr fod problemau'n ymwneud â mynediad at gyfleusterau hamdden.

## 6.1 Rhagymadrodd

I raddau helaeth roedd y sylwadau yn adroddiad Cartrefi 2007 Arsyllfa Wledig Cymru yn ymwneud â newid economi Cymru wledig yn berthnasol o hyd. Tra bod sectorau cyflogi gwledig traddodiadol fel amaeth a fforestydd yn aros yn bwysig fel llunwyr y dirwedd, bu'n rhaid i ffermwyr symud tuag at aml-swyddogaeth er mwyn gwneud yn iawn am y lleihad ym mhwysigrwydd amaeth a manteisio ar gyfleoedd a roddir gan bwysigrwydd cynyddol gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddefnyddwyr fel twristiaeth, chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, ers arolwg Cartrefi 2007 Arsyllfa Wledig Cymru, mae Cymru wledig ynghyd â gweddill y DU, wedi'i heffeithio gan ddirwasgiad.

Mae gwaith arall Arsyllfa Wledig Cymru, fel arolwg Busnes 2010, wedi tynnu sylw at effeithiau'r dirwasgiad ers 2008. Cododd arolwg Cartrefi 2010-11 gyfres o gwestiynau a ddyluniwyd i archwilio economi Cymru wledig, o ran cyflogaeth a nodweddion y gweithlu, a chanfyddiadau preswylwyr o'u heconomi lleol. Mae'r adran wedi'i threfnu o gwmpas y themâu canlynol:

- Amgylchiadau cyflogaeth
- Gweithgarwch (Anweithgarwch) Economaidd
- Hanes cyflogaeth
- Mathau o gyflogaeth
- Maint busnes a gweithlu
- Teithio i'r gwaith
- Cyfleoedd cyflogaeth
- Anawsterau gyda chyflogaeth

## 6.2 Statws cyflogaeth

Cynigwyd ystod o gategorïau i'r 4,062 o ymatebwyr a gofynnwyd iddynt nodi eu statws cyflogaeth drwy ddewis y categori a oedd yn cyd-fynd â'u hamgylchiadau presennol. Mae Tabl 6.1 yn dangos cyfrannau'r sampl ym mhob categori cyflogaeth. At hyn, dosberthir cyfrannau ym mhob categori yn ôl oedran, rhyw, incwm a dosbarth cymdeithasol.

Mae'r canlyniadau yn y tabl yn dangos perthynas gadarnhaol rhwng cyflogaeth llawn amser ac incwm, a rhwng incwm a dosbarth cymdeithasol. Pwynt arall i'w nodi yw bod cyfran lai o ymatebwyr yn Nosbarth Cymdeithasol DE mewn cyflogaeth o'i gymharu â chategorïau dosbarth cymdeithasol eraill, tra bod cyfran sylweddol o ymatebwyr yn Nosbarth Cymdeithasol DE wedi'u dosbarthu fel 'salwch neu anabledd tymor hir'. Fel y gellir disgwyl, roedd cyfran uwch o ymatebwyr rhwng 16-34 oed (14%) mewn addysg llawn amser o'i gymharu â'r categori arall, a ymestynnodd rhwng 1% a 2%.

## 6.3 Newidiadau mewn statws cyflogaeth 2007 - 2010/11

Wrth edrych yn agos ar ddata cyflogaeth ar gyfer y sampl cyffredinol, ymddangosodd nad oedd llawer o newid rhwng 2007 a 2010. Yr unig statws cyflogaeth a ddangosodd newid o fwy na dau bwynt canran oedd y categori 'wedi ymddeol', a gynyddodd dri phwynt canran. O ran rhyw, lleihaodd cyfran y gwrywod mewn cyflogaeth llawn amser, tra cynyddodd nifer y benywod mewn cyflogaeth llawn amser. Roedd hefyd ychydig o newid yn nifer yr ymatebwyr a ddosbarthwyd fel 'di-waith'. Er enghraifft, cynyddodd nifer yr ymatebwyr a ddosbarthwyd fel 'di-waith' yn y grwp oedran 16-34 oed ddau bwynt canran, tra bod nifer yr ymatebwyr di-waith yn Nosbarth Cymdeithasol DE wedi cynyddu pedwar pwynt canran.

**Tabl 6.1** **Statws cyflogaeth pob ymatebydd yn ôl Rhyw, Oedran, Incwm a Dosbarth Cymdeithasol.**

| | Cyffredinol | Rhyw | | Oedran | | | Incwm Blynyddol | | | | | Dosbarth Cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Gwryw* | *Benyw* | *16-34* | *35 - 54* | *55+* | *Llai na £10,000* | *£10K - £20,999* | *£21,000 - £30,999* | *£31,000 - £51,999* | *Dros £52,000* | *AB* | *C1* | *C2* | *DE* |
| **Cyfrif** | **4,062** | **1,889** | **2,173** | **527** | **1,440** | **2,089** | **528** | **998** | **714** | **538** | **370** | **1,319** | **1,228** | **697** | **759** |
| Llawn amser | 35% | 40% | 30% | 50% | 57% | 15% | 8% | 26% | 44% | 58% | 67% | 42% | 39% | 32% | 19% |
| Rhan amser | 12% | 5% | 17% | 14% | 15% | 9% | 10% | 14% | 12% | 11% | 9% | 10% | 13% | 14% | 11% |
| Hunangyflogedig | 8% | 12% | 5% | 5% | 11% | 7% | 5% | 9% | 8% | 9% | 10% | 6% | 9% | 14% | 5% |
| Hyfforddiant y Llywodraeth | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Addysg Lawn Amser | 2% | 2% | 2% | 14% | - | - | 2% | 1% | 2% | 1% | - | 2% | 2% | 2% | 2% |
| Di-waith | 2% | 3% | 2% | 6% | 2% | 2% | 8% | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 3% | 6% |
| Sâl/anabl tymor hir | 3% | 3% | 3% | 2% | 5% | 2% | 8% | 5% | 1% | - | 1% | 1% | 1% | 4% | 9% |
| Wedi ymddeol | 33% | 33% | 33% | - | 2% | 63% | 52% | 37% | 29% | 16% | 10% | 35% | 32% | 26% | 39% |
| Gofalu am y cartref | 3% | - | 6% | 6% | 5% | 1% | 4% | 4% | 3% | 2% | 3% | 3% | 2% | 4% | 5% |
| Cyfnod mamolaeth | - | - | 1% | 2% | - | - | - | - | - | 1% | - | - | - | - | - |
| Gwneud rhywbeth arall | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% | - | - | - | 1% | - | 1% | 3% |

**Tabl 6.2** **Ymatebwyr ac aelodau eraill y cartref dros 16 oed ac yn gymwys i gyflogaeth**

| | Cyfrif | Nifer wedi ymddeol o waith |
|---|---|---|
| Prif ymatebwyr | 4,062 | 1,348 |
| Aelodau eraill y cartref | 4,158 | 851 |
| **Cyfanswm** | **8,220** | **2,199** |
| Cyfanswm sydd o bosibl yn gymwys i gyflogaeth:<br>Ymatebwyr + Aelodau eraill y cartref – Cyfanswm wedi Ymddeol = **6,021** | | |

Galluogodd strwythur yr holiadur ddata i gael ei gasglu ar statws cyflogaeth hyd at bum aelod arall o'r cartref dros 16 oed. Ar gyfer arolwg 2010-11, casglwyd gwybodaeth ar gyfanswm o 8,220 o bobl; roedd hyn yn cynnwys 4,062 o brif ymatebwyr a 4,158 o aelodau eraill y cartref. Didynnwyd ymatebwyr ac aelodau eraill y cartref o oedran ymddeol o'r ffigur hwn er mwyn penderfynu cyfanswm y nifer o ymatebwyr ac aelodau cartrefi sy'n gymwys ar gyfer cyflogaeth. Dangosir dadansoddiad o'r ffigurau hyn yn Nhabl 6.2.

Mae Tabl 6.3 yn dangos statws cyflogaeth y 6,021 ymatebwr ac aelodau cartref yn gymwys ar gyfer cyflogaeth.

**Tabl 6.3** **Statws cyflogaeth ar gyfer pob person (ymatebwyr ac aelodau eraill y cartref) dros 16 oed, ac eithrio pobl sydd wedi ymddeol.**

| | Cyfrif: 6,021 | Cyfran |
|---|---|---|
| Llawn amser | 3,008 | 50% |
| Rhan amser | 929 | 15% |
| Hunangyflogedig | 623 | 10% |
| Hyfforddiant y Llywodraeth | 12 | - |
| Addysg Lawn Amser | 602 | 10% |
| Di-waith | 229 | 4% |
| Salwch/anabledd tymor hir | 241 | 4% |
| Gofalu am y cartref | 289 | 5% |
| Cyfnod mamolaeth | 14 | - |
| Gwneud rhywbeth arall | 68 | 1% |
| Ddim yn gwybod | 6 | - |

Tra bod 55% o gyfanswm yr ymatebwyr mewn gwaith cyflogedig (Tabl 6.1), nid oedd 11% arall yn gweithio ac roedd traean o ymatebwyr wedi ymddeol.

Mae Tabl 6.3 yn eithrio'r categori 'wedi Ymddeol'. Fodd bynnag, yn union fel

yr oedd cynnydd yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi ymddeol - o 30% yn 2007 i 33% yn 2010 (Tabl 6.1) - roedd cynnydd yng nghyfran y bobl a oedd 'wedi ymddeol' pan ystyried yr holl gartrefi a ymatebodd. Y cyfrannau oedd 25% yn 2007 a 27% yn 2010 (Tabl 6.2).

## 6.4 Anweithgarwch Economaidd

Mae'r term 'economaidd anweithgar' yn cyfeirio at bobl nad ydynt mewn cyflogaeth nac yn chwilio am waith a'u bod ar gael i weithio. Mae'r boblogaeth economaidd anweithgar yn dod o dan bedwar categori penodol: unigolion sy'n mynychu sefydliadau addysg; pobl sydd wedi ymddeol; unigolion sydd â dyletswyddau teuluol; a phobl economaidd anweithgar eraill.

Y gyfran o'r 8,220 o bobl yn y cartrefi a ymatebodd a oedd yn gymwys i fod yn 'economaidd anweithgar' oedd 42% - roedd hyn yn cymharu â 30% yn 2007.

## 6.5 Hanes cyflogaeth

Gofynnwyd i bobl nad oeddent yn gweithio adeg yr arolwg a oeddent erioed wedi bod mewn cyflogaeth ai peidio. Gofynnwyd iddynt hefyd p'un a oedd unrhyw rai o aelodau eraill eu cartref nad oeddent mewn cyflogaeth ar hyn o bryd erioed wedi gweithio.

Mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd 1,847 o ymatebwyr mewn cyflogaeth adeg yr arolwg, yn ogystal â 1,813 o aelodau eraill o'r cartrefi. Felly, o blith y 8,220 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg, nid oedd cyfanswm o 3,660 (45%) yn gweithio adeg yr arolwg. Nododd y rhan fwyaf o'r unigolion hynny (90%) eu bod wedi cael cyflogaeth â thâl rywbryd.

## 6.6 Cyflogaeth wledig

Ar draws rhai categorïau cyflogaeth ymddengys fod tebygrwydd rhwng data Arolwg Llafurlu'r ONS (2010-2011) ar gyfer Cymru gyfan a data arolwg cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru ar gyfer 2010-11. Er enghraifft, roedd y ffigurau ar gyfer unigolion hunangyflogedig (7%); unigolion sy'n gofalu am y cartref (4%); a'r gyfran mewn cyflogaeth amser llawn (38%) yr un peth ar gyfer y ddau set data. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth bach yn y ffigurau ar gyfer unigolion mewn cyflogaeth - 54% ar gyfer Cymru gyfan a 56% ar gyfer sampl gwledig Arsyllfa Wledig Cymru.

Gwahaniaethau nodedig eraill oedd cyflogaeth ran amser, a oedd fymryn yn uwch ar gyfer Cymru gyfan (15%) o gymharu ag arolwg Arsyllfa Wledig Cymru (11%); y bobl ddi-waith hynny a oedd am gael swydd (5% ar gyfer Cymru gyfan a 2% yn y Gymru wledig); a'r rhai a oedd ag ail swydd (2% ar gyfer Cymru gyfan a 8% yn arolwg Arsyllfa Wledig Cymru).

## 6.7 Sectorau cyflogaeth; maint busnesau; a Theithio i'r gwaith

Er mwyn cael gwybodaeth am y fath o gyflogaeth yng Nghymru wledig; maint busnesau gwledig; a'r pellter yr oedd trigolion yn teithio i'r gwaith, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am eu gwaith cyfredol, neu eu gwaith blaenorol os nad oeddent yn gweithio ar hyn o bryd. Gofynnwyd ystod debyg o gwestiynau i aelodau eraill y cartref a oedd naill ai'n gweithio neu wedi cael swydd yn y gorffennol. Gan gyfuno canlyniadau'r ddau grwp casglwyd gwybodaeth a oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth ar gyfer cyfanswm o 7,797 o unigolion.

O ran y sectorau cyflogaeth, datgelodd data'r arolwg gyfanswm o 47 gweithle. Mae tabl 6.4 yn dangos y cyfrannau ar gyfer y prif gategorïau.

**Tabl 6.4 Categorïau cyflogaeth**

| Categori | Cyfrif: 7,797 | Categori | Cyfrif: 7,797 |
|---|---|---|---|
| Amaeth, hela a choedwigaeth | 4% | Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 13% |
| Mwyngloddio a chwarelu | 1% | Addysg | 14% |
| Gweithgynhyrchu | 8% | Iechyd a gwaith cymdeithasol | 15% |
| Cyflenwi trydan, nwy a dwr | 3% | TG | 1% |
| Adeiladu | 6% | Glanhawyr/domestig | 1% |
| Cyfanwerthu a manwerthu: atgyweirio cerbydau modur | 11% | Elusen | 1% |
| Gwestai ac arlwyo | 7% | Adloniant/cyfryngau | 1% |
| Cludiant, storio a chyfathrebu | 4% | Chwaraeon/canolfannau hamdden/hyfforddiant chwaraeon | 1% |
| Banciau, cymdeithasau adeiladu a gwasanaethau ariannol | 3% | Peirianneg (amhenodol) | 1% |
| Gwerthu tir, rhentu a gweithgareddau busnes | 2% | Eraill | 3% |

Roedd mathau eraill o waith yn cynnwys gofal plant, twristiaeth, newyddiaduraeth, trin gwallt, pysgota a'r diwydiant olew.

Yn gyffredinol, mae'r sylwadau a wnaed ar gyfer adroddiad 2007 yn wir o hyd. Mae amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth yn parhau i fod ar lefel isel, a gyda'i gilydd, mae Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg, a Gwaith Cymdeithasol yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyflogaeth sampl yr arolwg. Yn wir, mae'r sectorau hyn gyda'i gilydd wedi cynyddu eu cyfran dri phwynt canran o 39% yn 2007 i 42% yn 2010.

O ran maint y busnesau, mentrau, swyddfeydd a gweithleoedd eraill, gofynnwyd i ymatebwyr ddisgrifio'i man gwaith, a man gwaith aelodau eraill y cartref, drwy ddewis un categori o blith saith - fel y nodwyd yn Nhabl 6.4. Ymatebodd 4,560 o unigolion i'r cwestiwn hwn a dangosir y canlyniadau yn Nhabl 6.5.

**Tabl 6.5 Maint a math o weithle**

| Categori | Cyfrif: 4,560 |
|---|---|
| Menter breifat fach sy'n cyflogi llai na 10 o bobl | 25% |
| Menter breifat fach sy'n cyflogi 10 - 24 o bobl | 7% |
| Menter breifat ganolig sy'n cyflogi 25 - 100 o bobl | 9% |
| Menter breifat fawr sy'n cyflogi fwy na 100 o bobl | 19% |
| Corff sector cyhoeddus | 34% |
| Sefydliad sector gwirfoddol | 2% |
| Eraill | 4% |

Mae'r tabl yn dangos mai'r cyflogwr mwyaf yw'r sector cyhoeddus, a oedd yn cyflogi ychydig dros draean (34%) o sampl yr arolwg. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'r data yn Nhabl 6.4, a oedd yn nodi bod cyfran fawr o sampl yr arolwg yn cael ei chyflogi yn y sectorau Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg, ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol. Fel yn 2007, yr ail fath mwyaf cyffredin o weithle oedd menter breifat fach sy'n cyflogi llai na 10 o bobl (25%), yna menter breifat fawr sy'n cyflogi mwy na 100 o bobl (19%).

Gofynnwyd i'r 2,215 o ymatebwyr a oedd mewn cyflogaeth ddarparu'r pellter roeddent yn ei deithio i'r gwaith. Mae Tabl 6.6 a Thabl 6.7 yn dangos y canlyniadau.

**Tabl 6.6 Pellter a deithiwyd i'r gwaith**

| Pellter o'r gweithle | Cyfrif: 2,215 |
|---|---|
| Gweithio gartref | 13% |
| Llai na 5 milltir o gartref | 30% |
| 5-10 milltir o gartref | 20% |
| 11-20 milltir o gartref | 17% |
| 21-49 milltir o gartref | 11% |
| 50 milltir neu fwy o gartref | 3% |
| Dim gweithle penodol | 5% |

Mae'r data'n dangos perthynas bositif rhwng y pellter a deithiwyd i'r gwaith ac incwm y cartref. Hynny yw, roedd y cyfrannau mwy o'r rhai sy'n ennill incwm uwch yn teithio pellter hirach i'r gwaith. Fel y dengys Tabl 6.7, roedd 22% o'r rhai sydd ag incwm sy'n llai na £10,000 yn gweithio gartref o gymharu â 10% o'r ymatebwyr hynny sydd ag incwm o £52,000 neu fwy.

Yn ogystal, roedd 42% o'r ymatebwyr a oedd yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn yn teithio llai na phum milltir i'r gwaith, o gymharu â 21% o'r rheini yn y grwp incwm mwyaf (£52,000 neu fwy y flwyddyn). Dim ond 2% o'r grwp incwm isaf oedd yn teithio mwy na 50 milltir i'r gwaith, o gymharu â chyfran uwch (8%) o'r rheini yn y grwp incwm mwyaf.

**Tabl 6.7 Pellter a deithiwyd i'r gwaith ac incwm blynyddol y cartref**

| | Llai na £10,000 y flwyddyn | £10,000 i £20,999 | £21,000 i £30,999 | £31,000 i £51,999 | £52,000 neu ragor |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gartref | 22% | 14% | 13% | 10% | 10% |
| Llai na 5 milltir o gartref | 42% | 38% | 28% | 25% | 21% |
| Rhwng 5-10 milltir o gartref | 13% | 19% | 25% | 22% | 19% |
| Rhwng 11-20 milltir o gartref | 10% | 16% | 19% | 18% | 22% |
| Rhwng 21-49 milltir o gartref | 8% | 5% | 10% | 17% | 16% |
| 50 milltir neu fwy o gartref | 2% | 1% | 2% | 5% | 8% |
| Dim gweithle penodol | 3% | 7% | 3% | 3% | 4% |

**Tabl 6.8** **Dull o drafnidiaeth i'r gwaith**

| Dull o drafnidiaeth | Cyfrif: 1,917 |
|---|---|
| Cerbyd modur sy'n eiddo i'r cartref | 79% |
| Cerbyd modur sy'n eiddo i rywun arall | 4% |
| Bws | 3% |
| Trên | < 1% |
| Ar droed | 10% |
| Beic | 2% |
| Arall | 1% |

Roedd y data ar y dull o deithio i'r gwaith yn datgelu bod y rhan fwyaf (79%) yn defnyddio cerbydau modur personol i deithio i'r gwaith, a bod nifer cymharol isel yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

## 6.8 Cyfleoedd cyflogaeth

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried argaeledd cyfleoedd cyflogaeth yn eu hardaloedd lleol, ac yn benodol, p'un a oeddent wedi cael unrhyw anawsterau i ddod o hyd i'r math o waith roedd ei angen arnynt. Gofynnwyd cwestiwn tebyg i aelodau eraill y cartref a oedd o fewn oedran gweithio. Atebodd 5,336 o unigolion y cwestiwn hwn. Dangosir yr ymatebion yn Nhabl 6.9.

**Tabl 6.9** **Anawsterau i ddod o hyd i waith yn yr ardal leol**

| Ymateb | Cyfrif: 5,336 |
|---|---|
| Do | 31% |
| Naddo | 61% |
| Ddim yn berthnasol | 8% |

Pan ofynnwyd a oedd ystod y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn yr ardal leol wedi gwella neu wedi gwaethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd dros hanner (54%) o'r farn bod y sefyllfa wedi gwaethygu; nid oedd traean wedi gweld unrhyw newid amlwg; dywedodd 5% fod y sefyllfa wedi gwella; ac roedd 8% yn ansicr. O ran oedran, nododd 43% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed eu bod wedi cael anawsterau i ddod o hyd i waith yn eu hardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael anawsterau i ddod o hyd i gyflogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yn amrywio rhwng 25% yn Sir Fynwy a 37% yn Sir Ddinbych. O'r canlyniadau hyn, ymddengys fod yr anawsterau sy'n ymwneud â chwilio am gyflogaeth yn fwy cyffredin yn yr ardaloedd mwy hygyrch.

Mae'r canfyddiadau'n dangos mai'r ddau brif anhawster i ymatebwyr a oedd yn chwilio am waith oedd, yn gyntaf, nad oedd digon o swyddi ar gael yn gyffredinol (48%); ac yn ail, bod prinder amlwg o swyddi addas (45%). Roedd anawsterau eraill yn cynnwys trafnidiaeth, yn enwedig lle roedd y swydd bosibl bellter o'r cartref; a phrinder gwaith rhan amser a llawn amser.

Yn gyffredinol, roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael anhawster i ddod o hyd i waith wedi cynyddu saith pwynt canran rhwng 2007 a 2010-11 - o 24% i 31%.

**Canfyddiadau allweddol**

- Roedd 55% o'r holl ymatebwyr mewn cyflogaeth (naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser neu'n hunangyflogedig) ac roedd traean wedi ymddeol. O'r gweddill, roedd 2% yn derbyn addysg lawn amser, 2% yn ddi-waith, 3% wedi'u cofrestru â salwch hir dymor neu'n anabl, a 3% wedi nodi eu bod yn gofalu am eu cartref.

- Roedd dosbarthiad y sectorau cyflogaeth mewn ar draws cartrefi gwledig at ei gilydd yn debyg i ganlyniadau'r arolwg blaenorol yn 2007.

- Roedd y canlyniadau'n nodi bod cyfran ychydig yn uwch o gartrefi wedi'u cyflogi mewn swyddi gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, addysg a gwaith iechyd a chymdeithasol – sef cynnydd o 39% yn 2007 i 42% yn 2010.

- roedd 22% o'r ymatebwyr yn cael eu cyflogi mewn cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai ac arlwyo; roedd 8% yn cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu; 6% yn y diwydiant adeiladu; tra bod y ffigur o ran sectorau amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth yn parhau'n isel sef 4%.

- Roedd 13% o'r ymatebwyr yn gweithio gartref. Roedd hanner yr holl ymatebwyr yn gweithio llai na 10 milltir o gartref. O'r gweddill, roedd 17% yn teithio rhwng 17-20 milltir, roedd 11% yn teithio rhwng 21-40 milltir, a 3% yn teithio mwy na 50 milltir.

- Roedd 43% o'r holl ymatebwyr yn y categori oedran 16-34 wedi nodi iddynt gael anawsterau i ddod o hyd i waith yn eu hardal leol.

- Y ddau anhawster pennaf a gafwyd gan ymatebwyr a oedd yn chwilio am waith oedd (i) prinder swyddi; a (ii) prinder swyddi addas.

## 7.1 Rhagymadrodd

Roedd materion yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol a'n perthynas ag ef yn parhau i fod yn amlwg ac ymhlith llu o bryderon am yr amgylchedd mae pobl yn cael eu hannog i weithredu a dilyn arferion i helpu i ddiogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae gan y dirwasgiad a chyflwr enbyd yr economi botensial i ddargyfeirio sylw wrth arferion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a all fod yn gostus. Mae gan Gymru wledig lu o adnoddau o ran ei thirwedd ac adnoddau naturiol eraill, ac mae nifer o faterion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd o bwys sylweddol i'r trigolion. Mae'r adran hon yn archwilio i berthynas pobl y Gymru wledig a'r amgylchedd; eu hagweddau tuag at faterion amgylcheddol; ac i ba raddau maent wedi mabwysiadau arferion sy'n berthnasol i'r amgylchedd. Yn ogystal, lle y bo'n briodol, mae'n eu cymharu â chanlyniadau Arolwg Cartref Arsyllfa Wledig Cymru 2007.

Mae'r themâu yn yr adran hon yn cynnwys:

- Ansawdd yr amgylchedd naturiol ac amaethyddol
- Canfyddiadau o fentrau polisi sydd wedi'u hanelu at yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd ehangach
- Canfyddiadau o faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd, a'r ymateb
- Agweddau trigolion at arferion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ac arbed ynni, a'u mabwysiadu

## 7.2 Ansawdd yr amgylchedd naturiol ac amaethyddol

Gofynnwyd i ymatebwyr p'un a oeddent wedi gweld newidiadau yn rhai agweddau ar eu hamgylchedd lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae Tabl 7.1 yn dangos y canlyniadau ar gyfer ansawdd cyffredinol yr amgylchedd naturiol.

**Tabl 7.1 Canfyddiadau o newid yn yr amgylchedd naturiol**

| Ymateb | Cyfrif: 4,062 |
|---|---|
| Wedi gwella cryn dipyn | 6% |
| Wedi gwella ychydig | 19% |
| Heb newid | 63% |
| Wedi gwaethygu ychydig | 7% |
| Wedi gwaethygu llawer | 3% |
| Ddim yn gwybod | 2% |

Wrth gymharu canlyniadau arolygon 2007 a 2010-11, ymddengys fod cyfran lai o'r ymatebwyr wedi gweld gwelliannau yn yr amgylchedd naturiol yn 2010-11 (25% o gymharu â 32% yn 2007).

Mae archwiliad pellach o'r canlyniadau sy'n ymwneud â newidiadau yn yr amgylchedd naturiol yn dangos mai prin oedd yr amrywiad o ran canfyddiad ar draws rhyw, grwpiau oedran, dosbarth cymdeithasol a'r math o le'r oedd pobl yn byw ynddo. Mae Tabl 7.2 yn dangos sut mae canfyddiadau o newid yn yr amgylchedd naturiol yn amrywio yn ôl incwm.

**Tabl 7.2** **Canfyddiadau o newid yn yr amgylchedd naturiol yn ôl grwp incwm**

| Cyfrif: 4062 | Llai na £10,000 | £10,000 - £20,999 | £21,000 - £30,999 | £31,000 - £51,999 | £52,000 neu ragor |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi gwella cryn dipyn | 7% | 6% | 6% | 4% | 5% |
| Wedi gwella ychydig | 18% | 17% | 21% | 25% | 19% |
| Heb newid | 60% | 62% | 63% | 61% | 70% |
| Wedi gwaethygu ychydig | 8% | 9% | 6% | 7% | 5% |
| Wedi gwaethygu llawer | 6% | 3% | 2% | 2% | 1% |
| Ddim yn gwybod | 3% | 2% | 1% | 2% | 1% |

Mae data arolwg 2010-11 yn dangos bod y canlyniadau'n lefelu'n gyffredinol ar draws grwpiau incwm. Y ddau grwp lle roedd y cyfrannau mwyaf o aelodau a welodd welliannau yn yr amgylchedd naturiol oedd y rhai ag incwm blynyddol rhwng £21,000 a £30,999 a rhwng £31,000 a £51,999 y flwyddyn.

Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o'r amgylchedd gwledig. Dangosir y canlyniadau cyffredinol ar gyfer canfyddiadau o gyflwr amaethyddiaeth leol yn Nhabl 7.3.

Er nad oedd y canfyddiadau o gyflwr amaethyddiaeth leol yn dangos llawer o amrywiad ar draws rhyw, grwpiau oedran, grwpiau incwm a dosbarth cymdeithasol, nid yw'n syndod mai'r bobl sy'n byw ar fferm neu mewn eiddo yng nghefn gwlad oedd â safbwyntiau mwy pendant, fel y dengys yn Nhabl 7.4.

**Tabl 7.3** **Canfyddiadau o newid yng nghyflwr amaethyddiaeth leol**

| Ymateb | Cyfrif: 4,062 |
|---|---|
| Wedi gwella cryn dipyn | 3% |
| Wedi gwella ychydig | 8% |
| Heb newid | 46% |
| Wedi gwaethygu ychydig | 13% |
| Wedi gwaethygu llawer | 8% |
| Ddim yn gwybod | 22% |

**Tabl 7.4** **Canfyddiadau o newid yng nghyflwr amaethyddiaeth leol yn ôl lleoliad y cartref**

| Cyfrif: 4,062 | Tref | Pentref | Fferm neu eiddo Yng nghefn gwlad | Cymysgedd |
|---|---|---|---|---|
| Wedi gwella cryn dipyn | 2% | 3% | 4% | 2% |
| Wedi gwella ychydig | 7% | 7% | 11% | 9% |
| Heb newid | 45% | 49% | 39% | 42% |
| Wedi gwaethygu ychydig | 12% | 12% | 17% | 9% |
| Wedi gwaethygu llawer | 5% | 8% | 17% | 8% |
| Ddim yn gwybod | 28% | 20% | 12% | 29% |

Roedd pobl sy'n byw yn y wlad yn llai tebygol o ganfod dim newid yng nghyflwr amaethyddiaeth leol neu'n llai tebygol o beidio â gwybod, o'u cymharu â grwpiau eraill. Felly, roeddent yn llawer mwy tebygol o gael safbwynt pendant ar y pwnc: roedd 15% wedi canfod gwelliant o gymharu â'r ffigur cyffredinol o 11% (Tabl 7.3) ond roedd 34% wedi canfod fod cyflwr yr amaethyddiaeth leol wedi gwaethygu, o gymharu â ffigur cyffredinol o 21% (Tabl 7.3).

## 7.3 Mentrau polisi

Cynigiwyd ystod o fentrau polisi i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi clywed amdanynt ai peidio. Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi clywed amdanynt a oeddent yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau, cyfleusterau, neu brosiectau a oedd wedi cael eu cyllido drwy bob menter polisi. Mae tabl 7.5 yn dangos canlyniadau cyfun y ddau gwestiwn hyn.

Dim ond lleiafrif o sampl cyfan yr arolwg o 4,062 o ymatebwyr oedd yn ymwybodol o bob un o'r mentrau polisi. Y rhai mwyaf adnabyddus oedd Cymunedau yn Gyntaf (yn gyfarwydd i 47% o ymatebwyr), Amcan Un (45%) a'r Cynllun Datblygu Gwledig (43%). Dim ond 6% oedd yn ymwybodol o Leader+, ond nid oedd 27% o sampl yr arolwg (1,088 o bobl) wedi clywed am unrhyw rai o'r mentrau polisi.

O ran ymwybyddiaeth o unrhyw wasanaethau, cyfleusterau neu brosiectau a gyllidwyd gan y mentrau hyn, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt (675) yn ymwybodol o'r gwasanaethu, cyfleusterau neu brosiectau a gyllidwyd gan Amcan Un, a 633 o bobl yn ymwybodol o wasanaethau, cyfleusterau neu brosiectau a gyllidir gan Gymunedau yn Gyntaf. Prin oedd y bobl (66) oedd yn ymwybodol o wasanaethau, cyfleusterau neu brosiectau Leader+.

**Tabl 7.5 Ymwybyddiaeth o fentrau polisi, a gwasanaethau, cyfleusterau neu brosiectau sy'n gysylltiedig â nhw**

| Cyfrif Menter Polisi: 4,062 | Ymwybodol o'r Fenter (Cyfrif) | Cyfran o'r cyfanswm (4,062) | Ymwybodol o wasanaeth, cyfleuster neu brosiect (Cyfrif) | Cyfran o'r rhai sy'n ymwybodol o'r fenter |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig | 1,766 | 43% | 369 | 21% |
| Leader + | 246 | 6% | 66 | 27% |
| Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig | 942 | 23% | 193 | 20% |
| Amcan Un | 1,813 | 45% | 675 | 37% |
| Cymunedau yn Gyntaf | 1,926 | 47% | 633 | 33% |
| Dim o'r rhain | 1,088 | 27% | - | - |

## 7.4 Pryderon Amgylcheddol Ehangach ac Arbed Ynni

Roedd holiadur yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau a luniwyd i archwilio canfyddiadau ymatebwyr o faterion amgylcheddol, a'u hagweddau tuag atynt, a'r ffordd roeddent yn ymateb i'r materion hynny o fewn y cartref.

Roedd y cwestiwn cyntaf yn ceisio canfod i ba raddau roedd pryderon amgylcheddol

wedi gwneud i ymatebwyr feddwl am leihau ynni'r cartref ac ailgylchu. Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2007 hefyd. Dangosir yr ymatebion yn Nhabl 7.6.

**Tabl 7.6** **I ba raddau mae pryderon amgylcheddol wedi dylanwadu ar gartrefi gwledig i feddwl am ailgylchu neu leihau eu defnydd o wres neu oleuadau yn y cartref**

| Ymateb | Cyfrif: 4,062 |
|---|---|
| Llawer iawn | 40% |
| Cryn dipyn | 38% |
| Ychydig | 14% |
| Ddim o gwbl | 7% |
| Ddim yn gwybod | 1% |

Mae'r canlyniadau'n dangos, os o gwbl, y bu gostyngiad bach mewn ymwybyddiaeth amgylcheddol ers arolwg 2007. Fodd bynnag, yr un oedd y sefyllfa o ran bod pryderon amgylcheddol yn dylanwadu'n fawr ar gartrefi gwledig, gyda 78% o boblogaeth yr arolwg yn nodi eu bod yn credu am ailgylchu neu leihau eu defnydd o ynni yn y cartref gryn dipyn neu lawer iawn. Dim ond 7% a ddywedodd nad oeddent wedi meddwl am y materion hyn o gwbl. Dywedodd ychydig yn uwch o ferched eu bod wedi meddwl am gamau gweithredu o ran cadwraeth amgylcheddol. Nid oedd ffactorau fel oedran, incwm na dosbarth cymdeithasol yn dylanwadu ar ymatebion i'r cwestiynau am ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Er mwyn archwilio i ba raddau roedd cadwraeth amgylcheddol yn cael ei harfer mewn gwirionedd, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr p'un a oeddent wedi ystyried, neu p'un a oeddent yn ystyried, ystod o fesurau cadwraeth ddomestig. Mae Tabl 7.7 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 7.7** **Mesurau cadwraeth ddomestig**

| Mesur (Cyfrif: 4,062) | Wedi | Yn ei ystyried | Ddim yn ystyried | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Ynysu'r llofft | 85% | 5% | 9% | 1% |
| Ffenestri gwydr dwbl | 89% | 4% | 4% | - |
| Paneli solar | 3% | 22% | 74% | 1% |
| Tyrbin gwynt | - | 14% | 85% | 1% |
| Ynysiad wal geudod | 50% | 7% | 40% | 3% |
| Bylbiau golau arbed ynni | 95% | 1% | 3% | - |

Mae'r grantiau niferus sydd ar gael ar gyfer ynysu'r llofft yn golygu mai dyma'r ffordd rataf a mwyaf effeithiol o arbed ynni - fel yr adlewyrchir yng nghyfran sylweddol yr ymatebwyr (85%) a oedd wedi insiwleiddio'r llofft yn eu cartref. Er gwaethaf hyn, nododd 14% o'r cartrefi nad oedd ganddynt ynysu llofft ac nid oedd 9% yn ei ystyried hyd yn oed. Efallai mai'r rheswm oedd nad oedd yn bosibl ynysu rhai o'r llofftydd hyn.

Ymddengys fod deiliadaeth cartref yn cael effaith sylweddol ar y defnydd a wneir o ynysiad llofft. Roedd 88% o'r bobl a oedd yn berchen ar eu heiddo eu hunain wedi insiwleiddio'u llofftydd, o'i gymharu â 68% o'r ymatebwyr nad oeddent yn berchen ar eu heiddo. Er nad oedd incwm yn benderfynydd cryf, ymddengys fod perthynas bositif rhyngddo ag ynysu'r llofft. Roedd yr ystod yn dechrau ar 82% ar gyfer y grwp incwm lleiaf ac yn codi i 89% ar gyfer y grwp incwm uchaf.

Roedd ffenestri gwydr dwbl yn parhau i fod yn fwy poblogaidd nag ynysu'r llofft, a oedd hefyd yn wir yn 2007. O ran deiliadaeth, roedd gan 91% o berchnogion tai ffenestri gwydr dwbl o'i gymharu â 79% o bobl nad oeddent yn berchen ar dai. Roedd perthynas bositif rhwng ffenestri gwydr dwbl ac incwm gyda'r ystod yn dechrau ar 85% ar gyfer y grwp incwm lleiaf ac yn codi i 90% ar gyfer y grwp incwm uchaf.

Ynysu wal geudod yw'r trydydd dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar gyfer arbed ynni yn y cartref, ynghyd ag ynysu'r llofft a ffenestri gwydr dwbl. Ar draws yr arolwg, nododd 40% o'r ymatebwyr fod gan eu cartrefi ynysiad wal geudod. Yn ddiddorol ddigon, nododd nifer debyg o gartrefi 'nad oeddent yn ystyried' ynysiad wal geudod. Fodd bynnag, gallai hyn adlewyrchu'r gyfran uchel o gartrefi hyn sydd â waliau cerrig solid, heb geudod, a geir mewn ardaloedd gwledig. Er bod ynysiad waliau ceudod yn gymharol wastad ar draws y grwpiau incwm, roedd ychydig o amrywiad yn ôl deiliadaeth cartrefi: roedd gan 52% o berchnogion tai ynysiad wal geudod o'i gymharu â 45% o bobl nad oeddent yn berchen ar dai.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod 95% o boblogaeth yr arolwg yn defnyddio bylbiau golau arbed ynni. Am nad yw bylbiau golau ffilament tyngsten 'traddodiadol' yn cael eu cynhyrchu bellach, mae'r gyfran hon yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i'r hen stoc ddod i ben.

Mae paneli solar a thyrbinau gwynt yn gymharol ddrud o ran cost cyfalaf ac mae'n bosibl y gallant fod yn amodol ar reoliadau cynllunio, a gofynion hinsoddol a lleoliad daearyddol. Prin oedd yr ymatebwyr oedd yn gweithredu'r gosodiadau ynni hyn. Gan ei bod yn annhebygol y byddai deiliaid cartrefi yn cael gwared ar ffurfiau cyfredol o arbed ynni, roedd cynnydd cyffredinol yng nghyfrannau'r cartrefi sy'n eu defnyddio rhwng arolygon 2007 a 2010-11.

## 7.5 Ailgylchu

Dangosir ymatebion i gwestiynau am ddarpariaeth gwasanaethau ailgylchu yn ardaloedd lleol ymatebwyr yn Nhabl 7.8.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau ailgylchu ar draws y pedwar math o wasanaethau y gofynnwyd i'r ymatebwyr amdanynt. O ran y ddau wasanaeth 'casglu cartref' (casglu ailgylchu a chasglu gwastraff gwyrdd), mae'r canlyniadau'n dangos mai 'ffermydd ac eiddo yng nghefn gwlad' sy'n cael eu gwasanaethu gwaethaf: nododd 45% o'r cartrefi yng nghefn gwlad eu bod yn derbyn casgliadau gwastraff gwyrdd, o gymharu ag 80% mewn trefi. Yn ogystal, roedd gan 80% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn eiddo yng nghefn gwlad agored gasgliadau ailgylchu o'r cartref, o gymharu â 98% mewn trefi. Prin oedd yr ymatebwyr a honnodd nad oeddent yn gwybod unrhyw beth am wasanaethau ailgylchu.

Yna gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd â mynediad i bob math o wasanaeth ailgylchu p'un a oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae Tabl 7.9 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 7.8: Darpariaeth gwasanaethau ailgylchu**

| | Casgliadau ailgylchu o'r cartref | Casgliadau ar wahân ar gyfer gwastraff gwyrdd | Banciau poteli a banciau papur | Safleoedd ailgylchu cyhoeddus |
|---|---|---|---|---|
| Wedi'u darparu | 94% | 74% | 91% | 88% |
| Heb eu darparu | 6% | 24% | 8% | 10% |
| Ddim yn gwybod | - | 2% | 1% | 2% |

**Tabl 7.9 Defnydd o gyfleusterau ailgylchu**

| | Casgliadau ailgylchu o'r cartref | Casgliadau ar wahân ar gyfer gwastraff gwyrdd | Banciau poteli a banciau papur | Safleoedd ailgylchu cyhoeddus |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm â mynediad at y gwasanaeth | 3,821 | 3,026 | 3,700 | 3,583 |
| Yn eu defnyddio | 97% | 86% | 84% | 86% |
| Ddim yn eu defnyddio | 3% | 14% | 16% | 14% |

Ar draws y pedwar math o wasanaeth, mae'r canlyniadau'n nodi cyfraddau uchel o ddefnydd. Un pwynt i'w ystyried yw na fyddai ymatebwyr sy'n compostio gwastraff gwyrdd yn defnyddio casgliadau gwastraff gwyrdd, a allai gyfrif am y cyfraddau is ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth. Er bod cyfraddau casgliadau ailgylchu o'r cartref a chasgliadau gwastraff gwyrdd ar wahân wedi cynyddu ers 2007, roedd y defnydd o fanciau poteli a safleoedd ailgylchu cyhoeddus wedi gostwng ychydig.

## 7.6 Perchenogaeth car a defnyddio car

Mae'n aml yn ofynnol i drigolion yng Nghymru wledig deithio pellteroedd hir, ac mae'r dadansoddiad yn Adran 5 yn dangos y bu problemau cyffredin o ran cael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Fel y gellid ei ddisgwyl, roedd nifer uchel yn berchen ar gerbyd modur, gyda'r rhan fwyaf (92%) o'r cartrefi a arolygwyd yn nodi eu bod yn berchen ar gerbyd modur, neu â mynediad at gerbyd modur.

Gyda chyfran mor uchel o berchenogaeth, mae'n anodd nodi penderfynyddion sylweddol. Fodd bynnag, daeth rhai canlyniadau diddorol i'r amlwg. Er enghraifft, roedd 99% o'r ymatebwyr a oedd yn byw ar fferm neu mewn eiddo yng nghefn gwlad yn berchen ar gerbyd modur. Dim ond 73% o'r cartrefi hynny a oedd ag incwm blynyddol o lai na £10,000 oedd yn berchen ar gerbyd modur, ac ymddengys fod tuedd i fyny o ran incwm. Roedd gan gyfran sylweddol (90%) o'r ymatebwyr ag incwm rhwng £10,000 ac £20,999 gerbyd modur, tra bod perchenogaeth car ymhlith trigolion yn y categorïau incwm eraill (dros £21,000 hyd at y cartrefi ag incwm blynyddol o dros £52,000) yn amrywio o 97% - 99%. Mae'n amlwg hefyd bod tuedd sy'n gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol. Cyfran y dosbarth cymdeithasol DE a oedd yn berchen ar gerbyd modur oedd 81%. Mae'r gyfran hon yn codi i 98% ar gyfer dosbarth cymdeithasol AB.

O'r 3,741 o'r cartrefi hynny â cherbyd modur, roedd 46% yn berchen ar un; roedd 40% yn berchen ar ddau; ac roedd 14% yn berchen ar dri neu fwy. Eto, roedd y canlyniadau'n dangos perthynas bositif rhwng bod yn berchen ar fwy nag un cerbyd modur, incwm sy'n codi a dosbarth cymdeithasol.

Roedd y cwestiwn olaf ond un am gerbydau modur yn ymwneud â milltiredd

blynyddol. Gofynnwyd i ymatebwyr amcangyfrif milltiredd blynyddol eu cartref. Dangosir yr ymatebion hyn yn Nhabl 7.10. Yn ddisyndod, maent yn datgelu mai cartrefi sy'n byw ar ffermydd neu mewn eiddo yng nghefn gwlad oedd y grwp a oedd fwyaf tebygol o gael y milltiredd blynyddol uchaf. Er enghraifft, roedd gan 37% o gartrefi yn y grwp hwn filltiredd blynyddol o fwy nag 20,000 o filltiroedd o gymharu â 22% o'r cartrefi mewn tref neu ddinas a 26% o'r cartrefi hynny mewn pentref.

Mae'r canlyniadau hefyd yn datgelu perthynas bositif rhwng milltiredd blynyddol uchel a'r rhai sy'n gweithio, ac incwm a dosbarth cymdeithasol. O'r ymatebwyr hynny ag incwm cartref blynyddol o lai na £10,000, dim ond 9% oedd â milltiredd blynyddol o fwy nag 20,000 milltir o'i gymharu â 61% o'r rhai ag incwm cartrefi o £52,000 neu fwy. Roedd newid sydyn yn y rhai â milltiredd blynyddol o fwy nag 20,000 milltir, a oedd i'w weld rhwng grwpiau incwm £21,000 i £30,999 a £31,000 a £51,999. Y cyfrannau oedd 25% a 43% yn y drefn honno.

**Tabl 7.10: Milltiredd blynyddol cartrefi**

| Milltiredd blynyddol | Cyfrif: 3,741 |
|---|---|
| Llai na 1,000 milltir | 2% |
| 1000 – 1999 | 3% |
| 2000 – 2999 | 3% |
| 3000 – 4999 | 6% |
| 5000 – 9999 | 20% |
| 10,000 – 14,999 | 21% |
| 15,000 – 19,999 | 12% |
| 20,000 neu’n uwch | 26% |
| Ddim yn gwybod | 6% |

O ran dosbarth cymdeithasol, roedd cynnydd sefydlog yng nghyfrannau'r trigolion â milltiredd blynyddol o fwy nag 20,000 o filltiroedd - o 13% ar gyfer dosbarth cymdeithasol DE hyd at 34% ar gyfer dosbarth cymdeithasol AB.

Yn olaf, gofynnwyd i 4,062 o ymatebwyr amcangyfrif i ba raddau roedd eu dibyniaeth cartrefi ar eu cerbyd modur wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Tabl 7.11 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 7.11: Dibyniaeth cartrefi ar eu cerbyd modur yn ystod y pum mlynedd diwethaf**

| Ymateb | 2007 (Cyfrif: 4,071) | 2010-11 (Cyfrif: 4,062) |
|---|---|---|
| Wedi cynyddu'n sylweddol | 19% | 19% |
| Wedi cynyddu ychydig | 15% | 14% |
| Tua'r un peth | 57% | 58% |
| Wedi gostwng ychydig | 5% | 4% |
| Wedi gostwng yn sylweddol | 4% | 4% |

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau hyn yn datgelu dibyniaeth gref barhaus ar gerbydau modur. Maent yn dangos er bod rhan fwyaf yr ymatebwyr o'r farn bod dibyniaeth eu cartref ar gerbydau modur wedi aros yn gymharol wastad, roedd dros bedair gwaith yn fwy o'r farn ei bod wedi cynyddu yn hytrach na gostwng - 33% ac 8% yn y drefn honno.

**Canfyddiadau allweddol**

- Roedd 25% o'r ymatebwyr yn teimlo bod ansawdd eu hamgylchedd naturiol lleol wedi gwella i raddau yn ystod y pum mlynedd diwethaf - nid oedd 63% wedi gweld unrhyw newid.
- Roedd 25% wedi gweld gwelliannau i'r amgylchedd naturiol (o'i gymharu â 32% yn 2007).
- Pan holwyd am gyflwr amaethyddiaeth leol, nododd 21% o'r ymatebwyr ei bod wedi gwaethygu; dywedodd 11% fod y sefyllfa wedi gwella; dywedodd 46% fod y sefyllfa wedi aros yr un peth
- Roedd ychydig o dan hanner (47%) o'r ymatebwyr yn ymwybodol o raglen Cymunedau yn Gyntaf, roedd 45% yn ymwybodol o raglen Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd, a 43% wedi clywed am y Cynllun Datblygu Gwledig. Dim ond 6% oedd yn ymwybodol o raglen LEADER+ yr Undeb Ewropeaidd. Nid oedd 27% o sampl yr arolwg yn ymwybodol o'r mentrau polisi hyn.
- Ymddengys y bu gostyngiad bach mewn ymwybyddiaeth amgylcheddol ers arolwg 2007.
- Roedd 92% o'r cartrefi yn yr arolwg yn berchen ar gerbyd modur neu'n gallu trefnu ffordd o ddefnyddio cerbyd modur.
- O'r cartrefi hynny â cherbyd modur, roedd 46% yn berchen ar un; roedd 40% yn berchen ar ddau; ac roedd 14% yn berchen ar dri neu fwy.
- Dim ond 73% o'r cartrefi hynny ag incwm blynyddol o lai na £9,999 oedd yn berchen ar gerbyd modur.
- Roedd gan 26% o'r cartrefi filltiredd blynyddol o fwy nag £20,000.
- Nododd 33% fod eu dibyniaeth ar drafnidiaeth fodurol wedi cynyddu; nododd 58% fod eu dibyniaeth wedi aros yn gymharol wastad; a nododd 8% fod eu dibyniaeth ar gerbyd modur wedi lleihau.
- Roedd cynnydd o ran darpariaeth gwasanaethau ailgylchu.
- Ymddengys fod y gwasanaethau casglu gwastraff gwyrdd a chasgliadau ailgylchu yn waeth yng nghefn gwlad nad ydyw mewn trefi.
- Roedd casgliadau cartref ar gyfer ailgylchu a chasgliadau gwastraff gwyrdd ar wahân wedi cynyddu rhwng arolygon 2007 a 2010-11. Fodd bynnag, roedd y defnydd o safleoedd ailgylchu poteli a safleoedd ailgylchu cyhoeddus wedi gostwng ychydig.